

Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft

Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio
Etholiadol

Hydref 2022

Tudalen gynnwys

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol
7. Opsiynau - Crynodeb
8. Costau a manteision - Crynodeb
9. Costau a manteision – Pennod 3 y Papur Gwyn – Symleiddio cofrestru etholiadol yng Nghymru
10. Costau a manteision – Pennod 4 y Papur Gwyn – Cryfhau gweinyddiaeth etholiadol
11. Costau a manteision – Pennod 5 y Papur Gwyn – Adeiladu iechyd democrataidd
12. Costau a manteision – Pennod 6 y Papur Gwyn – Moderneiddio etholiadau Cymru
13. Costau a manteision – Pennod 7 y Papur Gwyn – Gwella ein democratiaeth
14. Aseiad Effaith
15. Adolygu ar ôl gweithredu

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Mae hwn yn Aseiad Effaith Rheoleiddiol drafft i gefnogi cynigion deddfwriaethol yn y Papur Gwyn ar Weinyddiaeth a Diwygio Etholiadol. Y bwriad yw nodi aseidiadau cychwynnol o gostau a manteision yr opsiynau lle bo hynny'n bosibl ac amlinellu'r math o gostau a manteision a ragwelir ar gyfer yr wybodaeth sydd ar gael lle bo hynny'n bosibl. Hefyd, gofyn am dystiolaeth ychwanegol ac amgen fel sail i'r aseiad terfynol.

Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad ar y papur gwyn a bydd Aseiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag unrhyw Fil i fwrw ymlaen â'r cynigion hynny.

Nid oes cynigion penodol sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol er mwyn bwrw ymlaen â'r meysydd canlynol:

Pennod 3 y Papur Gwyn – Symleiddio cofrestru etholiadol yng Nghymru

- Ailddatgan yr Etholfraint
- Cofrestru awtomatig
- Gwella cyfraddau cofrestru myfyrwyr a phobl ifanc

Pennod 4 y Papur Gwyn – Cryfhau gweinyddiaeth etholiadol

- Y Bwrdd Rheoli Etholiadol
- Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol
- Trosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol (y Panel) i'r Comisiwn a diddymu'r Panel
- Cyllid ymgyrchu, treuliau a gwariant pleidiau gwleidyddol
- Cynlluniau Peilot Etholiadol

Pennod 5 y Papur Gwyn – Adeiladu iechyd democrataidd

- Gwybodaeth Hygyrch am Bleidleiswyr
- Gwella hygyrchedd y broses etholiadol ar gyfer pobl heb gynrychiolaeth ddigonol;
- Cryfhau'r Drosedd Etholiadol Dylanwad Gormodol
- Mesurau eraill i ddiogelu ymgeiswyr
- Cronfa Mynediad at Swydd Etholedig
- Arolwg ymgeiswyr

Pennod 6 y Papur Gwyn – Moderneiddio etholiadau Cymru

- Pleidleisio Hyblyg
- Orlhain pleidleisiau drwy'r post

Pennod 7 y Papur Gwyn – Gwella ein democratiaeth

- Newidiadau i'r drefn anghymhwysu Cyngorwyr Lleol rhag gwasanaethu hefyd fel Aelodau o'r Senedd

Ar hyn o bryd, rydym wedi ystyried rhai o'r mathau o gostau a manteision a allai fod yn berthnasol. Mewn llawer o achosion mae'r cynigion hyn ar gam cynnar ac ni fydd asesiadau cost a budd manwl yn bosibl nes bydd cynigion cadarnach yn cael eu datblygu, yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.

Rydym wedi gallu darparu rhai amcangyfrifon cychwynnol o gost rhai o'r meysydd sy'n debygol o fod â'r costau mwyaf sylweddol o ran y meysydd polisi a nodir isod. Sylwch mai amcangyfrifon cychwynnol yw'r rhain, a fydd yn cael eu mireinio wrth i'r cynigion gael eu datblygu ymhellach ac wrth i ni gasglu mwy o dystiolaeth yn dilyn yr ymgynghoriad.

Cofrestru awtomatig

Costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru

- Costau pontio ar gyfer newidiadau i Systemau Rheoli Etholiadol – Nid ydym yn gwybod beth yw'r costau hyn, ond cost y newidiadau i ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16-17 oed oedd £1.6m yn 2020-21 a gallai'r gost fod yn gymharol â hynny.

Costau ychwanegol i lywodraeth leol

- Costau rheolaidd – **£1.8m** y flwyddyn

Mae hyn yn cynnwys £1.5m bob blwyddyn ar gyfer llythyr at bob etholwr i roi gwybod iddynt am gofrestru awtomatig. Sylwch fod hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif gan fod modd gwneud arbedion drwy ddefnyddio e-bost a defnyddio dulliau cyfathrebu eraill. Mae hefyd yn cynnwys £305,000 o gostau cyfle sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau staff i roi'r gofynion ar waith

Y Bwrdd Rheoli Etholiadol

Costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru

- Costau pontio – costau sefydlu'r drefniadaeth e.e. eiddo, recriwtio, offer TG, offer swyddfa. Heb ei amcangyfrif eto. Fel cymhariaeth, byddwn yn edrych ar gostau sefydlu sefydliadau tebyg a sefydlwyd yn ddiweddar.
- Costau rheolaidd - **£640,000** y flwyddyn ar gyfer costau gweithredol parhaus y drefniadaeth

Trosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (y Panel) i'r Comisiwn a diddymu'r IRP

Nid ydym yn rhagweld unrhyw gostau ychwanegol sylweddol, ond yn hytrach bydd costau'n cael eu trosglwyddo rhwng sefydliadau

Costau ychwanegol ar gyfer Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

- Costau rheolaidd o £140,000

Arbedion cost i'r Panel

- Arbedion rheolaidd o £50,000

Arbedion cost i Lywodraeth Cymru

- Arbedion rheolaidd o £90,000

Cynlluniau peilot etholiadol

Os caiff y cynnig ei ddatblygu i gyflwyno pŵer a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi awdurdod lleol i dreialu datblygiadau arloesol mewn etholiadau, gallai hyn arwain at gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Bydd y costau'n dibynnu ar nifer, math a graddfa'r cynlluniau peilot a gyflawnir dan bwerau o'r fath, felly ni ellir eu hamcangyfrif ar hyn o bryd. Fel cymhariaeth, cost y pedwar cynllun peilot etholiadol a gynhaliwyd ym mis Mai 2022 oedd tua £1.5m.

Pleidleisio hyblyg

Diwygio pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy

Olrhain pleidleisiau drwy'r post

Bydd costau a manteision yn gysylltiedig â'r tri chynnig hyn – costau trosiannol tebygol yn ogystal â chostau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl amcangyfrif y rhain nes bydd y cynigion yn cael eu datblygu ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.

Costau pontio Llywodraeth Cymru

Ni fydd unrhyw gostau pontio i Lywodraeth Cymru. Bydd y rhain yn gostau cyfle sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau staff i baratoi'r canllawiau a'r is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol i weithredu'r cynigion deddfwriaethol a nodir yn y Papur Gwyn. Nid ydym wedi amcangyfrif y rhain eto gan fod nifer o'r cynigion hyn yn dal wrthi'n cael eu ffurfio. Fel cymhariaeth, ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a gyflwynwyd fel Bil yn 2019, roedd y costau hyn yn tua £756,000.

Manteision

Nid ydym wedi meintioli unrhyw fanteision ar hyn o bryd. Bwriad y cynigion yw dileu'r diffyg democrataidd. Mae'r buddion disgwylidig heb eu meintioli'n cynnwys:

- gwneud democratiaeth a phleidleisio yn fwy hygyrch i bob aelod o'n cymdeithas ac annog cyfranogiad gweithredol ym mywyd democrataidd Cymru
- helpu pobl i fod yn fwy gweithgar, i ymgysylltu â dinasyddion ac, wrth wneud hynny, cyfrannu at well canlyniadau economaidd-gymdeithasol
- moderneiddio gweinyddiaeth etholiadau yng Nghymru
- gwella'r defnydd o dechnoleg i'w gwneud yn haws i bleidleiswyr ac ymgeiswyr gymryd rhan mewn democratiaeth

Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Mae'r wybodaeth a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael mewn perthynas â'r cynigion. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid etholiadol ac ystyried gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli, fel asesiadau o'r effaith ar gyfer deddfwriaeth etholiadol ddiweddar.

Rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth yn y meysydd hyn, ac rydym hefyd wedi comisiynu adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 'Diwygio cyfraith ac ymarfer etholiadol' (Gomes et al, 2022).

Bydd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cynnig cyfle i ychwanegu rhagor o wybodaeth a data i asesu'r costau a'r manteision yn fwy trylwyr wrth i ni ddatblygu a mireinio'r cynigion ymhellach. Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn helpu i dynnu sylw at ffynonellau gwybodaeth a data i ddatblygu'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ymhellach, ac i sicrhau bod y rhanddeiliaid perthnasol yn cael eu cynnwys.

Byddwn yn cynnwys tabl cryno o gyfanswm y costau mewn fersiynau diweddarach o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, i gyd-fynd ag unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys:

Cost gweinyddu

Costau cydymffurfio

Costau eraill

Costau ac anfanteision heb eu meintoli

Manteision

Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

7. Opsiynau - Crynodeb

Mae'r Papur Gwyn yn nodi diwygiadau arfaethedig i fodloni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd ac i gefnogi gwelliannau i Etholiadau'r Senedd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cymysgedd o gynigion anneddfwriaethol i hyrwyddo ymgysylltu mewn etholiadau a sicrhau ei bod yn fwy diogel ac yn fwy syml i sefyll mewn etholiadau, cynigion ar gyfer deddfwriaeth i gydgrynhoi a moderneiddio cyfraith etholiadol y byddem yn bwriadu eu cyflwyno yn ystod y Senedd hon, a chynigion hirdymor ar gyfer diwygio etholiadol i gefnogi democratiaeth Cymru yn y dyfodol.

Mae nifer o ryngddibyniaethau gyda Bil Diwygio'r Senedd ac mae swyddogion yn cydweithio ar y meysydd hynny. Byddwn yn gweithio'n agos i sicrhau y gwahaniaethir rhwng costau a manteision y ddau faes deddfwriaeth. Hefyd, byddwn yn ceisio cydlynu gwaith lle bo modd, er enghraifft gan ddefnyddio'r un tybiaethau ar gyfer asesu costau cyfle ar gyfer adnoddau staff awdurdodau lleol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn canolbwyntio ar y cynigion yn y Papur Gwyn a fyddai, yn ôl pob tebyg, angen deddfwriaeth sylfaenol i'w cyflawni. Ar gyfer y rhan fwyaf o gynigion, y ddau brif opsiwn a ystyrir yw:

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Opsiwn 2 – Gweithredu deddfwriaeth i gyflawni'r cynnig.

Mewn rhai achosion, rydym wedi nodi tri opsiwn, er enghraifft, ar gyfer y Bwrdd Rheoli Etholiadol a Newidiadau i'r drefn anghymhwysu Cynghorwyr Lleol rhag gwasanaethu hefyd fel Aelodau o'r Senedd.

8. Costau a manteision - Crynodeb

8.1 Llywiwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn gan yr wybodaeth orau oedd ar gael ar y pryd. Rydym wedi nodi'r amcangyfrifon o'r costau a'r manteision cychwynnol ar gyfer rhai cynigion, ond i eraill. Ni fydd hyn yn bosibl nes bydd yr opsiynau'n cael eu datblygu ymhellach ar ôl yr ymgynghoriad.

8.2 Y bwriad yw asesu'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â'r opsiynau dros gyfnod o ddeng mlynedd, o'r flwyddyn y bydd deddfwriaeth yn cael ei phasio, sy'n debygol o fod yn 2024/25. Bydd hyn yn caniatáu asesu'r costau a'r manteision dros ddau gylch etholiadol. Y flwyddyn sylfaen ar gyfer pennu costau fyddai blwyddyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth, sy'n debygol o fod yn 2023/24.

8.3 Lle bo'n briodol, cyflwynir y costau a'r manteision yn nhermau Gwerth Presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5%. Mae hyn yn unol â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Blwyddyn sylfaen pob cyfrifiad Gwerth Presennol fydd blwyddyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth.

8.4 Mae pob opsiwn wedi cael ei asesu gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Cyfrifir y costau a'r manteision ar lefel Cymru gyfan. Drwy gydol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, amcangyfrifir costau a manteision yn flynyddol, ac yna eu casglu dros gyfnod o ddeng mlynedd.

8.9 Mae'r manteision a nodwyd yn cael eu trafod mewn termau ansoddol yn bennaf, ac nid ydynt wedi cael eu mesur na'u prisio, oherwydd natur y cynigion. Rhagolygon yw unrhyw gostau sydd wedi'u cynnwys.

8.11 Paratowyd yr asesiad hwn yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Bydd yr ymgysylltu parhaus hwn, ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, yn helpu i lywio Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir. O'r ymgynghoriad.

9. Costau a manteision – Pennod 3 y Papur Gwyn – Symleiddio cofrestru etholiadol yng Nghymru

9.1 Ailddatgan yr Etholfraint

Rydym yn ystyried ailddatgan yr etholfraint ar gyfer etholiadau Cymru mewn un Ddeddf ddwyieithog, a diweddarau etholfraint a hawliau ymgeisyddiaeth ar gyfer dinasyddion yr UE gan fod y DU wedi gadael yr UE.

Mae'r darpariaethau presennol sy'n nodi'r etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru yn anniben, ac mae hyn yn creu cymhlethdod. Hefyd, gan nad yw'r DU bellach yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd (UE), nid yw'r sail gyfreithiol dros roi hawliau pleidleisio awtomatig a hawl ymgeisio i holl ddinasyddion yr UE yn bodoli mwyach. Felly, rydym yn ystyried y newidiadau y mae angen i ni eu gwneud i'r etholfraint i adlewyrchu'r ffaith nad oes gan ddinasyddion yr UE hawl awtomatig i bleidleisio yn y DU mwyach.

Mae'r ymgynghoriad wedi gwahodd sylwadau ar yr opsiynau ar gyfer dinasyddion yr UE. Un opsiwn yw trin dinasyddion yr UE yn yr un ffordd ag yr ydym yn trin dinasyddion tramor o wledydd eraill, ac opsiwn arall yw cysoni hawliau pleidleisio â statws mewnfudo. Efallai y bydd angen i ni hefyd ystyried effaith y cytundebau hawliau pleidleisio ac ymgeisio cilyddol. Bydd y costau a'r manteision yn cael eu hasesu wrth ddatblygu'r opsiynau ymhellach.

9.2 Cofrestru awtomatig

Ystyriwyd dau opsiwn wrth ddatblygu'r polisi hwn:

- Parhau â'r drefn bresennol; a
- Cyflwyno cofrestru etholwyr heb gais (cofrestru awtomatig) ar gyfer etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru

Nid oes modd cael opsiwn anneddfwriaethol yn yr achos hwn, gan fod yr holl drefniadau ar gyfer cofrestru etholwyr wedi'u nodi'n glir mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

Opsiwn 1: parhau â'r drefn bresennol

Byddai'r opsiwn hwn yn parhau â'r arfer presennol o Gofrestru Etholiadol Unigol (ITR) lle mae'n ofynnol i bob etholwr gymryd rhan yn y canfasio blynyddol er mwyn cael eu cofrestru i bleidleisio.

Opsiwn 2: cofrestru etholwyr heb gais (cofrestru awtomatig)

Byddai'r opsiwn hwn yn darparu ar gyfer cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais os yw'r swyddog cofrestru etholiadol yn fodlon bod ganddo wybodaeth ddibynadwy bod unigolyn yn gymwys i gael ei gofrestru.

Er y byddai pleidleiswyr yn cael eu hychwanegu at y gofrestr etholwyr llywodraeth leol heb orfod gwneud cais, byddai'r swyddog cofrestru etholiadol wedyn yn cysylltu â hwy i roi gwybod iddynt am eu cofrestriad arfaethedig. Byddai hyn yn golygu bod yr etholwr, mewn rhai sefyllfaoedd prin, yn cael ei 'gofrestru'n ddiennw' (categori sydd ar gael i rywun lle gallai datgelu ei gyfeiriad ei beryglu ef neu rywun arall ar ei aelwyd).

Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf priodol o detholwyr sydd wedi'u cofrestru'n awtomatig, ni fydd y gofrestr etholiadol agored ar gael mwyach ar gyfer y gofrestr llywodraeth leol. Mae hyn yn golygu mai dim ond y gofrestr lawn, neu gaeedig, fydd ar gael i'r rheini sy'n cael mynediad drwy ddeddfwriaeth.

Gan ystyried y byddai symud i gofrestru awtomatig ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru yn newid sylweddol o ran gweinyddu etholiadau yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i dreialu gweithgarwch cyn yr is-ddeddfwriaeth er mwyn rhoi cofrestru awtomatig ar waith yn llawn. Rydym wedi gofyn am sylwadau am yr agweddau penodol ar gofrestru awtomatig y dylid eu treialu, ond mae'r rhaglen yn debygol o dreialu gwahanol ffyrdd o weithredu cofrestru awtomatig. Oherwydd hyn, ni fydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r broses yn llawn yn cael eu hamcangyfrif ar hyn o bryd. Os penderfynir bwrw ymlaen â chofrestru awtomatig, bydd dadansoddiad llawn o gostau yn cyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol a fydd yn ofynnol cyn cyflwyno'r cynllun yn llawn. Bydd hyn yn darparu'r goblygiadau ariannol

diweddaraf yn seiliedig ar y model a fydd yn cael ei weithredu ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Cofrestru awtomatig

Costau a manteision

Opsiwn 1: Parhau â'r drefn bresennol

Costau

Costau i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteisio i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

Byddai'r opsiwn hwn o fudd i bleidleiswyr oherwydd y byddai'r system yn llai cymhleth. Os caiff cofrestru awtomatig ei gyflwyno, bydd yn dal angen i rai pleidleiswyr gofrestru i bleidleisio'n flynyddol drwy'r system Cofrestru Etholiadol Unigol. Dim ond i'r pleidleiswyr hynny sy'n gymwys i hynny ar y cofrestrau etholiadol seneddol a llywodraeth leol y bydd hyn yn berthnasol iddynt.

Opsiwn 2: Cofrestru etholwyr heb gais (cofrestru awtomatig)

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

Bydd y costau i Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar y newidiadau sy'n ofynnol i'r Systemau Rheoli Etholiadol. Bydd angen cynnal trafodaethau manwl rhwng darparwyr EMS, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ganfod amcangyfrif rhesymol o'r costau hyn. Fodd bynnag, yn 2020-21 talwyd tua £1.6 miliwn i ddarparwyr EMS i gefnogi'r newidiadau gofynnol i systemau ar ôl ymestyn yr etholfraint.

Bydd costau'n parhau i gael eu cyfrifo yn ystod y cyfnod treialu wrth i'r model terfynol o gofrestru awtomatig gael ei ddatblygu a chyn i benderfyniad gael ei wneud ynghylch unrhyw fodel cofrestru awtomatig terfynol cyn cyflwyno'r drefn ledled Cymru. Bydd rhain yn gostau untro gan y bydd Llywodraeth

Cymru yn talu costau cychwynnol newidiadau i systemau EMS sy'n deillio o'r polisi hwn.

Ni fydd unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru o ddileu'r gofrestr agored mewn perthynas â Chymru.

Costau i lywodraeth leol

Ar hyn o bryd, rydym wedi nodi dau faes o gostau ychwanegol i lywodraeth leol, ond gallai hyn newid yn dilyn y cyfnod ymgynghori a threialu.

Gan fod angen cloddio data ychwanegol ym mhob awdurdod lleol, rydym ar hyn o bryd yn amcangyfrif y byddai hyn yn golygu bod angen swyddog ychwanegol i weithio'n llawn amser am 2 ddiwrnod yr wythnos.

Rydym wedi amcangyfrif bod y costau hyn yn oddeutu £305,000 y flwyddyn. Byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £14,000 fesul awdurdod ar sail pwynt cyflog 21 y cytundeb cyflog Llywodraeth Leol cenedlaethol (2020-21) lle'r oedd swyddog amser llawn yn gweithio 2 ddiwrnod yr wythnos yn benodol ar y gwaith cloddio data. Byddai'r gost ychwanegol hon yn gost hirdymor i'r awdurdod lleol oherwydd mae'n debygol y byddai angen y swyddogaethau cloddio data ychwanegol cyn cynhyrchu'r gofrestr etholiadol bob blwyddyn.

Hefyd, bydd cost ychwanegol i awdurdodau lleol wrth gysylltu ag etholwyr i roi hysbysiad cofrestru iddynt. Rydym yn cynnig caniatáu hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddefnyddio'r dulliau cyfathrebu mwyaf priodol (yn unol â rheoliadau canfasio presennol). Fodd bynnag, rydym wedi amcangyfrif cost anfon llythyr yn uniongyrchol at bob etholwr.

Mae'r ffigurau hyn wedi cael eu cyfrifo ar sail y gost gyfartalog o anfon Gwahoddiad i Gofrestru (ITR) at etholwyr ym mis Gorffennaf 2022 ynghyd â nifer y bobl sydd wedi cofrestru ym mhob awdurdod lleol.

Ar hyn o bryd, rydym yn amcangyfrif y bydd yn costio tua £1.5 miliwn bob blwyddyn i anfon llythyr papur at bob etholwr yng Nghymru. Bydd y gost fesul awdurdod yn amrywio rhwng £30,000 a £150,000 yn dibynnu ar faint yr awdurdod a nifer yr etholwyr.

Bydd modd gwneud arbedion os cysylltir ag etholwyr drwy e-bost neu ddulliau cyfathrebu electronig eraill.

Bydd y costau hyn yn ychwanegol at gost y canfasio blynyddol, oherwydd bydd angen i'r ddwy system hyn, neu'r cofrestru, gydredeg, a bydd angen i'r awdurdod lleol gysylltu ddwywaith â darpar etholwyr. Er bod cyfleoedd i arbed costau, mae'n debygol y bydd y gost ychwanegol yn un hirdymor o ystyried y ddyletswydd ychwanegol a roddir ar bob awdurdod.

Bydd awdurdodau lleol yn colli rhywfaint o incwm drwy ddileu'r gofrestr agored mewn perthynas ag etholiadau datganoledig, ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y bydd hyn yn gannoedd o bunnoedd bob blwyddyn.

Fodd bynnag, bydd y gofrestr agored yn dal yn ei lle ar gyfer y gofrestr seneddol a bydd incwm yn parhau i gael ei gynhyrchu o hyn.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

Byddai cofrestru etholwyr heb gais yn helpu i wella'r broses o gwblhau'r gofrestr etholwyr llywodraeth leol. Bydd treialu'r gweithgarwch hwn cyn ei gyflwyno'n llawn yn caniatáu i'r model mwyaf addas ac effeithiol gael ei gyflwyno ledled Cymru. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod pleidleiswyr yn cael y cyfle gorau posibl i gael eu rhoi ar gofrestr etholiadol llywodraeth leol (a ddefnyddir hefyd ar gyfer etholiadau'r Senedd) heb orfod gwneud cais.

Manteision i bobl eraill

Er y byddai hyn o fudd i bob etholwr, disgwylir y bydd o fudd arbennig i rai sy'n nesáu at oedran pleidleisio (pobl ifanc 14 a 15 oed a fyddai'n gymwys i bleidleisio yn y ddwy flynedd nesaf), lle gall ysgolion a gwasanaethau addysgol ddarparu data i'r swyddog cofrestru etholiadol. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi datgan eu cefnogaeth i gofrestru pobl ifanc yn awtomatig. Ar gyfer Dinasyddion Tramor Cymwys, byddai'n golygu na fyddai'n rhaid iddynt gofrestru i bleidleisio er mwyn cymryd rhan yn yr etholiadau y maent yn gymwys i bleidleisio ynddynt. Yn gyffredinol, bydd cofrestru awtomatig yn helpu i symleiddio'r berthynas rhwng yr etholwr a'r gwasanaethau democrataidd.

Bydd dileu'r gofrestr agored yng Nghymru o fudd mawr i bobl ifanc a'r rhai sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed. Mae'r gofrestr agored gyfredol yn cael ei gwerthu i nifer o sefydliadau sy'n fodlon talu am fynediad at ddata etholwyr. Os bydd data person ifanc neu agored i niwed yn cael ei werthu drwy'r gofrestr agored, mae'n bosibl y bydd yn cael ei dargedu gan sefydliadau a allai ei niweidio. Bydd dileu'r gofrestr agored mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yn golygu na fydd manylion y bobl hynny a gofrestrir yn awtomatig, neu'r bobl ifanc hynny a dinasyddion tramor cymwys nad ydynt yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau a gadwyd yn ôl yn cael eu gwerthu i drydydd partïon. Bydd data etholiadol yn parhau i gael ei ddarparu drwy'r gofrestr gaeedig i'r sefydliadau hynny y caniateir iddynt gael mynediad atynt yn ôl y gyfraith.

Byddai'r gofrestr agored yn dal ar waith yng Nghymru ar gyfer y gofrestr seneddol, ond byddai hyn ond yn berthnasol ar gyfer y bobl hynny sy'n 18 oed a hŷn, a'r rheini a oedd wedi gwneud cais i gofrestru i bleidleisio drwy'r system Cofrestru Etholiadol Unigol.

Yr Opsiwn a Ffefrir

Byddai Opsiwn 1 yn cynnal y sefyllfa bresennol.

Byddai Opsiwn 2 yn caniatáu i'r unigolion gael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol heb gais drwy hyrwyddo rhannu data rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n dal data perthnasol. Byddai hyn hefyd yn dileu'r gofyniad i unigolion ddilysu eu data drwy Gofrestru Etholiadol Unigol lle mae cofrestru awtomatig a chyfateb data wedi digwydd mewn perthynas â'r gofrestr llywodraeth leol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

10. Costau a manteision – Pennod 4 y Papur Gwyn – Cryfhau gweinyddiaeth etholiadol

10.1 Y Bwrdd Rheoli Etholiadol

Y mater dan sylw yw a ddylid sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru.

Sefydlwyd *Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban*, fel pwyllgor statudol, gan *Ddeddf Gweinyddiaeth Etholiadol Leol (Yr Alban) 2011*. Mae ganddo'r swyddogaethau cyffredinol o gydlynu'r gwaith o weinyddu etholiadau seneddol yr Alban, ac etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban, gan gynnwys:

- cynorthwyo swyddogion canlyniadau rhanbarthol, swyddogion canlyniadau etholaeth, awdurdodau lleol a phersonau eraill i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau seneddol yr Alban,
- cynorthwyo swyddogion canlyniadau, awdurdodau lleol a phersonau eraill i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol, a
- hyrwyddo arferion gorau mewn etholiadau seneddol ac etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu hyfforddiant (neu fel arall).

Yng Nghymru, sefydlwyd *Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru* yn 2017 i helpu i hwyluso'r gwaith o gydlynu digwyddiadau etholiadol a gweithgarwch etholiadol, moderneiddio a diwygio yng Nghymru. Mae hefyd yn hwyluso mwy o gydweithio rhwng Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a phartneriaid allweddol eraill. Mae'r Bwrdd Cydlynu yn cael ei hwyluso gan y Comisiwn Etholiadol ac nid yw'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae tri opsiwn canlynol wedi cael eu hystyried:

- 1) Cynnal y sefyllfa bresennol gyda'r Bwrdd yn cadw ei rôl bresennol.
- 2) Sefydlu "bwrdd rheoli etholiadol" fel pwyllgor statudol (fel yn yr Alban) i ymgymryd â'r swyddogaethau sydd ar hyn o bryd o fewn cylch gwaith y Bwrdd, yn annibynnol ar y llywodraeth.
- 3) Sefydlu "bwrdd rheoli etholiadol" fel corff cyhoeddus i ymgymryd â'r swyddogaethau sydd o fewn cylch gwaith y Bwrdd Cydlynu ar hyn o bryd yn annibynnol ar y llywodraeth.

Opsiwn 1: Cynnal y sefyllfa bresennol gyda'r Bwrdd yn cadw ei rôl bresennol.

Nid yw'r Bwrdd yn gorff statudol ac mae'n cael ei hwyluso a'i weinyddu gan y Comisiwn Etholiadol. Nid yw cyfranogiad swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol yn orfodol ac nid oes gan y Bwrdd Cydlynu unrhyw swyddogaethau statudol na phwerau cyfarwyddo.

Nid oes gan y Bwrdd ddigon o gapasiti i gefnogi'r gwaith o weithredu rhaglen diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru. Pe bai Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i gynyddu ei gapasiti, mae'n debyg y byddai angen i'r Comisiwn Etholiadol reoli'r cyllid hwn ar ran y Bwrdd Cydlynu. Gallai hyn godi cwestiynau ynghylch gwrthdaro buddiannau gan y gallai fod yn ofynnol i'r Comisiwn adrodd ar y gwaith o gyflawni tasgau yr ariannwyd corff y mae'n ei hwyluso (ac y mae'n rheoli ei gyllid) i'w cyflawni.

Nid yw'r Bwrdd Cydlynu yn gorff statudol ac, o'r herwydd, ni ellir rhoi pŵer cyfarwyddo iddo.

Opsiwn 2: Sefydlu “bwrdd rheoli etholiadol” fel pwyllgor statudol

Byddai swyddogaethau'r bwrdd yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth a gellid rhoi pwerau cyfarwyddo i'r bwrdd dros swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol. Ni fyddai'r bwrdd yn gallu dal cyllid, a byddai ei allu i gyflogi staff yn gyfyngedig (mae gan Fwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban un gweithiwr sy'n gweithio am 80% o'i amser ar Faterion y Bwrdd ac yn cael ei “gynnal” gan sefydliad arall).

Fel pwyllgor statudol, heb y gallu i gyflogi staff a chael cyllid gan Lywodraeth Cymru, ychydig iawn mae'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn gallu ei wneud i gefnogi'r agenda ar gyfer diwygio etholiadol.

Opsiwn 3: Sefydlu “bwrdd rheoli etholiadol” fel pwyllgor cyhoeddus.

Fel gydag opsiwn 2, byddai swyddogaethau'r bwrdd yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth, a gellid rhoi pwerau cyfarwyddo i'r bwrdd dros swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol.

Fel corff cyhoeddus sydd â'r seilwaith angenrheidiol yn ei le i dderbyn cyllid (a'i reoli'n briodol), ac i gyflogi staff, byddai'r Bwrdd mewn sefyllfa dda i fwrw ymlaen â nifer o elfennau allweddol o'i agenda ar gyfer diwygio etholiadol. Gallai'r rhain gynnwys -

- cynghori Gweinidogion Cymru ar lefelau parodrwydd lleol i gynnal y canfasio blynyddol a'r etholiadau;
- cynnal gwybodaeth etholiadol a chyfeirio at ffynonellau dibynadwy eraill o wybodaeth etholiadol;
- comisiynu a chyhoeddi data ac ymchwil, a chynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd democrataidd y genedl.
-

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Cynnal y sefyllfa bresennol gyda Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn cadw ei rôl bresennol.

Costau

Mewn egwyddor, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn (oni bai y penderfynwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid)

Manteision

Mae'r opsiwn hwn yn cynnal y sefyllfa bresennol ac nid ydym wedi nodi unrhyw fanteision ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn.

Opsiwn 2 - Sefydlu "bwrdd rheoli etholiadol" fel pwyllgor statudol (fel yn yr Alban) i ymgymryd â'r swyddogaethau sydd ar hyn o bryd o fewn cylch gwaith y Bwrdd Cydlynu, yn annibynnol ar y llywodraeth.

Costau

Ar sail y costau blynyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban, rydym yn amcangyfrif mai £130k y flwyddyn fyddai cost sefydlu bwrdd rheoli etholiadol fel pwyllgor statudol yng Nghymru.

Manteision

Bydd bwrdd rheoli etholiadol sydd â swyddogaethau statudol yn ymwneud â chydlynu gweithgarwch etholiadol ac, o bosibl, pŵer cyfarwyddo ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn helpu i sicrhau dull cyson, Cymru gyfan o weinyddu etholiadau nad ydynt wedi eu cadw yn ôl.

Opsiwn 3 - Sefydlu "bwrdd rheoli etholiadol" fel corff cyhoeddus annibynnol.

Costau

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl darparu cyfrifiad cywir o'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu a gweithredu bwrdd rheoli etholiadol fel corff cyhoeddus. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad yw ei swyddogaethau statudol ac, felly, nifer a math y gweithwyr sydd eu hangen (ac felly eu costau cyflog) wedi cael eu pennu eto. Fodd bynnag, rydym wedi dechrau ystyried y costau cysylltiedig drwy edrych ar gyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, cyfanswm gwariant gweithredu'r Comisiwn oedd £1,016,733 ([Cyfrifon Drafft 13-14 \(llyw.cymru\)](#)) a oedd yn cynnwys costau staff o £684,098 a £332,635 o wariant gweithredol arall (gan gynnwys pethau fel adeiladau, offer, TG a ffioedd cyfreithiol). Pe bai Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cael ei sefydlu, tybir y byddai'r costau terfynol mwy neu lai'r un fath. Fodd bynnag, o ran costau staffio, byddai angen addasiad. Cost staff parhaol y Comisiwn (10.9 o weithwyr) oedd £560,020. Rydym yn amcangyfrif na fyddai mwy na 6 o weithwyr ac felly rydym yn rhagweld cost o tua £308,267 (£560,020/10.9 x 6).

Ar sail y tybiaethau a'r cyfrifiadau uchod, rydym yn amcangyfrif y byddai cost gweithredu flynyddol Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru gyda 6 aelod o staff fel a ganlyn:

Costau Staff	£308,267
Costau Gweithredu Eraill	£332,635
Cyfanswm Costau Gweithredu	£640,902

Dros ddeng mlynedd, mae hyn yn gyfanswm cost weithredol o tua £6.41 miliwn.

Manteision

Fel gydag opsiwn 2, bydd bwrdd rheoli etholiadol sydd â swyddogaethau statudol yn ymwneud â chydlynu gweithgarwch etholiadol ac, o bosibl, pŵer cyfarwyddo ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn helpu i sicrhau dull cyson, Cymru gyfan o weinyddu etholiadau datganoledig.

Mae manteision ychwanegol sylweddol i'r opsiwn hwn oherwydd bydd gan y bwrdd rheoli etholiadol y seilwaith i dderbyn cyllid a chyflogi staff, gan ei roi mewn sefyllfa ddelfrydol i fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu a chyflawni nifer o'r mesurau pwysig sy'n gysylltiedig ag agenda diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru.

10.2 Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol

Cefndir

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn disgrifio'r mathau o adolygiadau o ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau y gellir eu cynnal ac yn rhoi manylion y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth gynnal adolygiad. Mae hefyd yn ymdrin â'r modd y dylid gweithredu unrhyw argymhellion a wneir o ganlyniad i'r adolygiad.

Yn benodol, mae adran 29(1) a (2) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) gynnal adolygiad etholiadol o drefniadau etholiadol pob prif ardal o leiaf unwaith bob deng mlynedd, a pharatoi a chyhoeddi rhaglen ar gyfer cynnal yr holl adolygiadau hynny.

Mae adran 22 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau fonitro'r ardaloedd cymunedol a'u trefniadau etholiadol yn eu hardal. Wrth wneud hynny, rhaid i'r cyngor roi sylw i'r rhaglen 10 mlynedd o adolygiadau etholiadol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd i'r cyngor gan Weinidogion Cymru.

Daeth rhaglen adolygiadau 2017 i ben yn 2021, a gwnaeth nifer o newidiadau i'r trefniadau etholiadol ledled Cymru. Ymrwymodd Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur y trefniadau presennol ar gyfer adolygiadau, gwrando ar adborth gan eraill a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella.

O ganlyniad i gyfres o drafodaethau gyda'r rhai sy'n ymwneud â'r broses adolygu a'r adborth a gafwyd yn ystod y broses adolygu, mae Gweinidogion Cymru wedi cynnig pecyn o fesurau i adeiladu ar y trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol, a'u cryfhau.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn gwneud y canlynol:

- Mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd ynghylch yr amser a gymerir i gwblhau adolygiadau, gwneud penderfyniadau am yr argymhellion, a gwneud Gorchmynion i weithredu'r newidiadau gofynnol, drwy nodi cyfres o derfynau amser mewn perthynas â rhannau unigol o'r broses.
- Ehangu nifer y pethau i'w hystyried wrth ddatblygu argymhellion ar gyfer adolygiadau, gan gynnwys eitemau fel poblogaeth myfyrwyr, nifer yr ymwelwyr, nifer y busnesau, pa un a yw'r ward yn wledig neu'n drefol, a lefelau amddifadedd. Ochr yn ochr â'r meini prawf presennol, y bwriad wedyn yw cael asesiad cyflawn o'r holl feini prawf wrth ystyried nifer y cynghorwyr sydd eu hangen ar gyfer pob ardal.
- Ychwanegu at y gofynion o ran ymgysylltu ac ymgynghori ym mhob cam o'r broses adolygu, gan gynnwys ymgynghori wedi'i dargedu ynghylch

argymhellion newydd sy'n cael eu llunio ar ôl ymgynghori ar adroddiadau drafft. Bydd hyn yn sicrhau na chyflwynir unrhyw argymhellion i Weinidogion Cymru heb ymgynghori arnynt.

- Darparu pwerau penodol i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd i atal adolygiad. Byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd mewn amgylchiadau fel y rheini a gafodd eu profi yn ystod y pandemig, cyfnodau o lifogydd neu newidiadau i ddyddiad etholiad cyffredin.
- Ehangu pwerau Gweinidogion Cymru i gynnwys yr opsiwn o ofyn i'r Comisiwn ailedrych ar un neu ragor o argymhellion mewn adroddiad. Ar hyn o bryd, ni all Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i ailedrych ar un neu ragor o'r argymhellion mewn adroddiad terfynol. Mae hyn wedi arwain at oedi ac, yn y pen draw, gallai arwain at wrthod pob argymhelliad mewn un adroddiad neu at beidio â chymryd unrhyw gamau o ganlyniad.
- Cynyddu tryloywder y broses ar gyfer pennu enwau wardiau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a galluogi pleidleiswyr i ymgysylltu mwy â'r elfen hon o'r broses adolygu.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y pecyn o fesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn yn cryfhau'n sylweddol y trefniadau ar gyfer darparu llywodraeth effeithiol a hwylus.

Yr opsiynau

At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried ar gyfer y cynnig hwn

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Opsiwn 2 - Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol

Opsiwn 1 Parhau â'r drefn bresennol

Disgrifiad

Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y sefyllfa bresennol. Byddai'n golygu y byddai'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol yn parhau fel y maent ar hyn o bryd, ac na roddir sylw i'r pryderon a godwyd yn ystod ac ar ddiwedd rhaglen adolygiadau 2017.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru, y Comisiwn a llywodraeth leol

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno costau ychwanegol. Fodd bynnag, ni fyddai'r manteision o adeiladu ar y trefniadau presennol, a'u gwella, yn cael

eu gwireddu. Byddai'r cyfleoedd i gryfhau llywodraeth effeithiol a hwylus yn cael eu colli, a byddai'n arwain at y pryderon a godwyd o ganlyniad i ailadrodd rhaglen ddiweddar 2017 o adolygiadau mewn rhaglenni adolygu yn y dyfodol.

Manteision

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn dod ag unrhyw fanteision.

Opsiwn 2 - Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol

Disgrifiad

Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno pecyn o fesurau i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan y rhai sy'n rhan o'r broses adolygu a chan aelodau o'r cyhoedd drwy ohebiaeth a deisebau.

Byddai'n gwella prydlondeb adolygiadau, yn cryfhau'r trefniadau ymgynghori, yn rhoi mwy o eglurder pwrpas ynghylch agweddau ar y broses, ac yn cynyddu hyblygrwydd i reoli'r trefniadau yng ngoleuni'r amgylchiadau presennol, fel y pandemig diweddar. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau canlynol wedi'u cynllunio i gryfhau'r trefniadau presennol.

Felly, cynigir y newidiadau canlynol i Ddeddf 2013:

- diwygio'r cyfnod pan na fydd y Comisiwn yn gallu cyhoeddi na chyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru, o naw i 12 neu 15 mis.
- Cyflwyno darpariaeth newydd i atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud Gorchymyn trefniadau etholiadol o fewn y cyfnod o chwe mis cyn etholiad Cyffredin.
- Cryfhau a.37 o Ddeddf 2013 i egluro ei diben, sef rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Comisiwn mewn perthynas â'r argymhellion terfynol sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad terfynol.
- Cyflwyno darpariaeth newydd sy'n mynnu bod adolygiad etholiadol yn cael ei gwblhau o fewn 15 mis (o'r dechrau hyd at gyflwyno'r argymhellion terfynol) ac adolygiad cymunedol i'w gwblhau o fewn 24 mis.
- Cyflwyno darpariaeth newydd i'w gwneud yn ofynnol i gael penderfyniad gan Weinidogion Cymru o fewn tri mis ar ôl cael yr adroddiad terfynol gan y Comisiwn, cyn belled fod hynny'n rhesymol ymarferol. Yn achos adolygiadau cymunedol, mae'n ofynnol cael penderfyniad gan y corff sy'n gwneud y Gorchymyn o fewn tri mis i dderbyn yr argymhellion terfynol.
- Ehangu nifer y pethau i'w hystyried wrth ddatblygu argymhellion, i gynnwys eitemau fel poblogaeth myfyrwyr, nifer yr ymwelwyr, nifer y busnesau, a yw'r ward yn wledig neu'n drefol a lefelau amddifadedd, a mynnu bod asesiad cyflawn yn cael ei gynnal o'r holl feini prawf wrth ystyried nifer y cynghorwyr sydd eu hangen ar gyfer pob ardal. Mae'r meini prawf ehangach hyn yn berthnasol i adolygiadau cymunedol yn ogystal ag adolygiadau etholiadol.

- Ychwanegu pwerau penodol er mwyn i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i ailedrych ar un neu ragor o'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad terfynol.
- Ychwanegu pwerau penodol i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i ohirio adolygiad.
- Cryfhau'r trefniadau ar gyfer ymgynghori drwy ehangu'r rhestr o ymgynghoreion gorfodol, sicrhau bod etholwyr cymwys yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch paratoi ei raglen adolygu, yr argymhellion mewn adroddiad drafft ac ymgynghori ynghylch argymhellion newydd cyn cyflwyno'r argymhellion terfynol.
- Egluro'r gofyniad i brif gynghorau gynnal adolygiad cymunedol llawn cyn cynnal adolygiad etholiadol, ac y dylai'r adolygiad etholiadol ddechrau o fewn dwy flynedd i gwblhau'r adolygiad cymunedol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn parhau'n gyfredol.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn nodi ac ymgynghori ar ei ddull gweithredu fel rhan o'i bolisi a'i ddatganiad ymarfer, a chyhoeddi enwau Cymraeg a Saesneg wardiau yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'i adroddiadau

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

Mae'r prif ofynion ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol yn aros fel maen nhw ar hyn o bryd. Nid oes disgwyl i'r gwelliannau yn y cynnig ychwanegu costau sylweddol drwy gydol y prosesau. Fodd bynnag, bydd costau'n gysylltiedig â chynhyrchu canllawiau i gefnogi'r Comisiwn a'r prif gynghorau. Nodir y costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r canllawiau yn y tabl isod. Disgwylir y bydd y costau canlynol yn cael eu hysgwyddo yn 2023-24

Costau staff	Cyflwg blynyddol gydag argostau (£)	Costau dyddiol (£)	Nifer y diwrnodau sydd eu hangen	Cyfanswm (£)
Gradd 7	90,165	409	10	4,098
EO	43,219	197	10	1,967
Cyfreithiwr (Graddfa 7)	90,165	409	5	2045
Cyfieithu (SEO)	70,507	320	5	1,600
			Cyfanswm	9,710

Cost i'r Comisiwn

Mae'r prif ofynion ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol yn aros fel maen nhw ar hyn o bryd. Nid oes disgwyl i'r gwelliannau yn y cynnig hwn ychwanegu costau sylweddol drwy gydol y broses. Fel nawr, gellir adennill costau sy'n gysylltiedig ag adolygiadau cymunedol oddi wrth y prif gyngor priodol. Bydd costau ychwanegol i'r Comisiwn pan fydd argymhellion newydd

yn dod i'r amlwg o ganlyniad i ymgynghori ar adroddiad drafft. O dan y cynigion hyn, byddai angen ymgynghori pellach wedi'i dargedu, sy'n gam ychwanegol at y trefniadau presennol. Pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei weithredu, amcangyfrifir y byddai'r costau rhwng £3,000 a £5,000 fesul ymgynghoriad wedi'i dargedu.

Costau i lywodraeth leol

Nodwyd y disgwyliad ar gyfer pob prif gyngor mewn perthynas ag adolygiadau etholiadol a chymunedol yn Neddf 2013. Nid ydym yn rhagweld unrhyw gostau ychwanegol sylweddol i lywodraeth leol o ganlyniad i'r cynigion hyn. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Cyngor bob blwyddyn yn golygu costau bach rheolaidd ychwanegol sy'n dod i gyfanswm o ddau ddiwrnod y flwyddyn ar gyfer pob cyngor a chostau sefydlu cychwynnol bach megis hyfforddi staff. (Costau i gael eu hychwanegu)

Manteision i lywodraeth leol

Bydd y mesurau a gyflwynir drwy'r cynnig hwn yn caniatáu mwy o gynllunio rhwng y Comisiwn a llywodraeth leol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl bartïon yn gwybod yn sicr pa bryd y bydd pob adolygiad yn dechrau ac yn gorffen, ac felly byddant yn helpu i ddyrannu a rheoli adnoddau i gefnogi'r adolygiadau.

Bydd cynnwys y ddarpariaeth sy'n gwahardd Gweinidogion Cymru rhag gwneud Gorchmynion yn ystod y chwe mis cyn etholiad cyffredin yn rhoi sicrwydd i brif gynghorau y gallant fwrw ymlaen â'r paratodau ar gyfer eu hetholiadau gan wybod na fydd unrhyw newid.

Bydd cyflwyno meini prawf ychwanegol i'w hystyried wrth gynnal adolygiadau yn galluogi argymhellion i adlewyrchu amgylchiadau lleol yn well, ac yn gwella'r trefniadau ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a hwylus.

Manteision i eraill

Bydd y mesurau yn y cynnig hwn yn sicrhau yr ymgynghorir ar bob argymhelliad, gyda mwy o bwyslais ar sicrhau bod pleidleiswyr yn ymwybodol o argymhellion ynghylch yr ardaloedd lle maent yn byw, ac yn cael cyfle i wneud hynny.

Bydd y cynnig hwn yn cryfhau democratiaeth ac atebolrwydd lleol, a'i fwriad yw ennyn mwy o ymddiriedaeth rhwng llywodraeth leol a dinasyddion lleol.

Yr Opsiwn a Ffefrir

Byddai Opsiwn 1 yn cynnal y sefyllfa bresennol. Byddai'r cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau'n cael eu colli a byddai'r rheini a oedd yn mynegi pryderon am y trefniadau presennol yn teimlo nad oedd eu lleisiau'n cael eu clywed na'n cael eu gweithredu arnynt.

Bydd Opsiwn 2 yn cryfhau'r trefniadau presennol, yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cynllunio rhaglenni adolygu ac, o ganlyniad, dyraniad adnoddau. Bydd hefyd yn canolbwyntio mwy ar sicrhau bod pleidleiswyr yn cael cyfle i gymryd rhan lawn yn y broses, ac yn hyderus yr ymgynghorir â hwy ar bob argymhelliad. Bydd yn galluogi trefniadau sy'n adlewyrchu llywodraeth leol effeithiol a hwylus yn well.

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

10.3 Trosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol (y Panel) i'r Comisiwn a diddymu'r IRP

Cefndir

Y Panel yw'r corff annibynnol sydd â'r prif swyddogaeth o wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau a thaliadau prif gynghorau, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol i'w haelodau etholedig. Mae ei bwerau hefyd yn cynnwys gwneud argymhellion ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflogau prif weithredwyr y prif gynghorau.

Yn 2021, cynhaliwyd adolygiad annibynnol Deng Mlynedd o'r Panel i weld a yw'r sefydliad yn dal yn addas i'r diben, ac yn cynnig gwerth da i'r pwrs cyhoeddus. Un o'r argymhellion oedd ailystyried y trefniadau cymorth ysgrifenyddol presennol i'r Panel ac ystyried a allai corff Cymreig annibynnol sydd ag agenda debyg ddarparu cymorth ysgrifenyddol yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

Ar ôl ystyried Cyrff Cymreig annibynnol, tynnwyd sylw at y materion cyffredin a'r dibyniaethau rhwng gwaith y Panel a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn), a rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r potensial o ddod â swyddogaethau'r ddau gorff at ei gilydd mewn un corff.

Mae Gweinidogion Cymru yn cytuno â'r argymhelliad y dylai'r gefnogaeth ysgrifenyddol i'r Panel gael ei darparu gan gorff heblaw Llywodraeth Cymru, a fyddai'n atgyfnerthu annibyniaeth gweithrediad y Panel.

Ystyrir mai'r Comisiwn yw'r cyfatebiad gorau, gan ei fod yn annibynnol, yn gorff corfforedig, ac mae ganddo swyddogaeth ysgrifenyddiaeth fewnol effeithiol dan arweiniad prif weithredwr. Mae'r Comisiwn yn defnyddio'r un sylfaen dystiolaeth a rhanddeiliaid i wneud ei waith ac mae ei bwrbas hefyd wedi'i wreiddio yn y gwaith o hyrwyddo democratiaeth leol effeithiol.

Mewn gwirionedd, mae eisoes perthynas symbiotig rhwng gwaith y ddau sefydliad. Mae'r naill agenda a'r llall yn dibynnu ar gael gwir ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o anghenion y boblogaeth, y ffordd y mae aelodau etholedig a chynghorau'n gweithredu ac effaith y materion hyn ar lwyth gwaith aelodau etholedig.

Mae Gweinidogion Cymru felly'n bwriadu mynd ymhellach na'r argymhelliad, ar sail y synergeddau rhwng y Panel a'r Comisiwn, a throsglwyddo swyddogaethau'r Panel i'r Comisiwn. Byddai hyn yn golygu mai'r un set o Gomisiynwyr fyddai'n pennu nifer y cynghorwyr ledled Cymru, y trefniadau etholiadol, a thaliadau cydnabyddiaeth cynghorwyr. Wrth wneud y newidiadau hyn, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig peidio â throsglwyddo swyddogaethau'r Panel yn adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) sy'n ymwneud â chyflogau prif weithredwyr y prif gynghorau. Ychwanegwyd y ddarpariaeth hon mewn ymateb i set benodol o

amgylchiadau nad ydynt yn berthnasol mwyach. Mae'n anghysondeb gan fod holl swyddogaethau eraill y Panel yn ymwneud â thaliadau cydnabyddiaeth aelodau etholedig. Mae cyflogau swyddogion yn bendant yn rhan o drefniadau cyflogwyr/ gweithwyr, ac mae ffyrdd eraill o fynd i'r afael ag unrhyw faterion, fel y gofyniad i gyhoeddi datganiadau polisi tâl yn unol ag adrannau 38 i 43 Deddf Lleoliaeth 2011, er mwyn sicrhau tryloywder mewn perthynas â'r trefniadau tâl ar gyfer gweithiwr uchaf y prif gynghorau. Rydym yn cynnig, wrth drosglwyddo'r swyddogaethau, archwilio'r opsiynau ar gyfer egluro a ddylai'r Panel wneud penderfyniadau ynghylch cynlluniau taliadau parasiwt ar gyfer aelodau etholedig ar y cyrff perthnasol o fewn eu cylch gwaith.

Yr opsiynau

Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol
Opsiwn 2 - Trosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) i'r Comisiwn a diddymu'r Panel.

Opsiwn 1 Parhau â'r drefn bresennol.

Disgrifiad

Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw newid. Er y gallai'r Panel fwrw ymlaen â nifer o'r gwelliannau anneddfwriaethol a gynigiwyd gan yr adolygiad deng mlynedd, ni fyddai argymhelliad allweddol, sef y byddai'r ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan gorff y tu allan i Lywodraeth Cymru, yn cael sylw.

Costau i Lywodraeth Cymru, y Panel a llywodraeth leol.

Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru, y Panel a llywodraeth leol.

Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 - Trosglwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) i'r Comisiwn a diddymu'r Panel

Disgrifiad

Opsiwn 2

Byddai Opsiwn 2 yn golygu diddymu Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur). Byddai swyddogaethau'r Panel (a'i swyddogaethau mewn perthynas ag uno gwirfoddol ac ailstrwythuro arall a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn cael eu hymgorffori yn

swyddogaethau a threfniadau gweithredu'r Comisiwn fel y nodir ar hyn o bryd yn Neddff Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013 (Deddf 2013).

O ran aelodaeth 2, mae Atodlen 2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) ar hyn o bryd yn darparu nad yw'r Panel yn cynnwys llai na 3, a dim mwy na 7, o aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, mae 5 aelod ar y Panel, gan gynnwys y Cadeirydd. Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiwn 5 aelod. Yn unol â'r canllawiau presennol, mae aelodau'r Comisiwn a'r Panel yn cael eu talu ar wahanol lefelau. Ni yw'n fwriad i'r Comisiwn weithredu ar sail nifer cyfun yr aelodau h.y. 12. O ystyried y gorgyffwrdd rhwng y swyddogaethau a'r gallu i gyflawni beichiau gwaith rhaglenni'n effeithiol, cynigir bod y Comisiwn yn gweithredu ar sail wyth aelod (disgwylir i hyn godi i naw ar sail y swyddogaethau a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn o ganlyniad i Ddiwygio'r Senedd. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â hyn yn cael eu cynnwys yn y dogfennau ategol ym Mil Diwygio'r Senedd). Er bod disgwyl i'r tâl i aelodau gynyddu, bydd hyn yn cael ei wrthbwysu gan y gostyngiad yng nghyfanswm yr aelodau.

Costau i Lywodraeth Cymru

Nid oes disgwyl i Opsiwn 2 olygu costau sylweddol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, disgwylir y bydd rhai costau'n gysylltiedig â chynhyrchu canllawiau i gefnogi'r Comisiwn a llywodraeth leol. Nodir y costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r canllawiau yn y tabl isod. Disgwylir y bydd y costau'n codi yn ystod 2023-24.

Costau staff	Cyflog blynyddol gydag argostau (£)	Costau dyddiol (£)	Nifer y diwrnodau sydd eu hangen	Cyfanswm (£)
Gradd 7	90165	409	5	2049
EO	43219	197	10	983
Cyfreithiwr (Graddfa 7)	90165	409	5	1022
Cyfieithu (SEO)	70, 507	320	5	1600
			Cyfanswm	5,654

Costau i'r Comisiwn

Bydd Opsiwn 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ailedrych ar ei strwythur staffio i sefydlu'r strwythur gorau posibl i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Disgwylir y bydd y gyllideb flynyddol bresennol o £50,000 i redeg y Panel yn cael ei throsglwyddo i'r Comisiwn ynghyd â'r costau sy'n gysylltiedig â chyllid sy'n cyfateb i gost y cymorth ysgrifenyddol presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, sef £80,000. Mae rhai costau hefyd yn cael eu hysgwyo gan Lywodraeth Cymru, fel cynnal gwefan y Panel, cyfieithu a chostau cysylltiedig eraill. Y bwriad felly yw darparu £10,000 ychwanegol i'r Comisiwn i ysgwyddo'r costau hyn.

Costau i lywodraeth leol

Nid oes disgwyl i Opsiwn 2 olygu unrhyw gost ychwanegol sylweddol a rheolaidd i lywodraeth leol.

Manteision

Manteision i'r Comisiwn a llywodraeth leol

Opsiwn 2 – Er mwyn penderfynu ar y trefniadau a'r lefelau tâl priodol ar gyfer aelodau etholedig, rhaid i'r Panel gasglu tystiolaeth i ddeall llwyth gwaith aelodau etholedig a sut mae natur y llwyth gwaith yn newid yn dibynnu ar amryw o ffactorau. Mae hyn yn cynnwys demograffeg yr etholwyr yn ardal y cyngor, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol y wardiau, ac i ba raddau y mae gan yr ardal boblogaeth dros dro. Er enghraifft, mae ardal sydd â mynegai amddifadedd uchel, diweithdra uchel a dibyniaeth uchel ar y system les yn cyflwyno materion gwahanol i aelodau etholedig o'u cymharu ag ardal o gyfoeth uchel, cyflogaeth uchel, a safonau byw uchel. Mae'r gwahaniaethau hyn, a gwahaniaethau eraill, yn effeithio ar waith aelod etholedig mewn ardal. Nid yw hynny'n golygu bod angen aelod etholedig ar un ardal, ac nad oes angen aelodau etholedig mewn ardal arall. Mae'n golygu bod angen gwahanol ymyriadau a chefnogaeth ar gyfer materion o'r natur hyn. Mae hyn yn cyflwyno heriau o ran sicrhau bod nifer yr aelodau etholedig mewn ardal yn ddigonol i ddiwallu anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Y Comisiwn sy'n pennu'r gymhareb o aelodau etholedig i bob etholwr. Mae'n gwneud hyn drwy geisio sicrhau bod y gymhareb o aelodau etholedig i bob etholwr yr un fath ar gyfer pob ardal o fewn ardal sir/ bwrdeistref sirol. Gellir dadlau ei bod yn debygol nad yw'r ymarferiad rhifiadol hwn, yn ei hanfod, yn ddigon i adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn cymunedau ac, yn hytrach nag ystyried y gwahaniaethau yn llwyth gwaith aelodau etholedig, mae'n cyffredinol i'r materion i gydbwysedd rhifol, ni waeth beth yw'r amgylchiadau mewn unrhyw gymuned neu ym mhob cymuned. Fodd bynnag, mae profiad diweddar o'r ddau adolygiad etholiadol ar hugain yn dweud wrthym fod hyn ymhell o fod yn wir, a'r adborth a gafwyd o'r prosesau hynny oedd y dylai'r Comisiwn gynnwys yn ei fethodoleg yr un ffactorau â'r rhai a grybwyllwyd uchod mewn perthynas â gwaith y Panel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod mwy o gyfle i gael dull mwy cytbwys o wneud penderfyniadau drwy ddod â'r swyddogaethau hyn at ei gilydd.

Yr Opsiwn a Ffeirir

Byddai Opsiwn 1 yn parhau â'r drefn bresennol. Byddai'r ddau sefydliad yn parhau i weithredu ar wahân ac yn colli'r cyfleoedd i gael dull cyfannol a fyddai'n sail i bolisiâu mwy crwn.

Opsiwn 2 – byddai'n adeiladu ar y synergeddau sy'n sail i'r set lawn o swyddogaethau, yn manteisio ar archwilio dibyniaethau rhwng cynghorwyr, capasiti llwyth gwaith a threfniadau etholiadol. Bydd hyn yn arwain at bolisi mwy crwn. Dyma'r dewis sy'n cael ei ffafrio.

10.4 Cyllid ymgyrchu, treuliau a gwariant pleidiau gwleidyddol

I'w gwblhau.

Rydym wrthi'n datblygu'r polisi yn y maes hwn, a byddwn yn nodi asesiad o'r costau a'r manteision. Yn gyffredinol, y ddau opsiwn fydd:

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i atgynhyrchu'r darpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf Etholiadau 2022, lle bo'n briodol, er mwyn i Gymru gynnal un fframwaith rheoleiddio ar gyfer cyllid gwleidyddol ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau datganoledig yng Nghymru?

Mae costau a manteision yn debygol o fod yn debyg i'r rheini ar gyfer darpariaethau perthnasol yn Rhan 4 Deddf Etholiadau 2022 yn Lloegr, fel y nodir yn yr Asesiad o Effaith ar y Bil Etholiadau:

<https://bills.parliament.uk/publications/44886/documents/1304>

10.5 Cynlluniau Peilot Etholiadol

Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom wahodd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru i gyflwyno cynigion i dreialu gwahanol ffyrdd o bleidleisio, a arweiniodd at bedwar awdurdod yn treialu pleidleisio ymlaen llaw yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Mae hyn wedi rhoi tystiolaeth ddefnyddiol ynghylch sut mae datblygiadau arloesol mewn etholiadau'n gweithio'n ymarferol, yn ogystal â nodi meysydd y byddai angen rhoi sylw iddynt cyn y gellid ystyried cyflwyno rhagor o bleidleisio ymlaen llaw. Rydym yn debygol o fod eisiau profi rhagor o ddatblygiadau ym maes gweinyddu etholiadol er mwyn ymateb i newidiadau mewn ffordd o fyw a thechnolegau sy'n datblygu. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a ddarperir gan y cynlluniau pleidleisio ymlaen llaw, adroddiad y Comisiwn Etholiadol ac ymatebion o'r ymgynghoriad i ystyried pa ddatblygiadau newydd y dylid eu treialu yn y dyfodol.

Yr opsiynau

Mae'r Papur Gwyn yn ceisio barn am y mathau o arloesi mewn gweinyddiaeth etholiadol y dylid eu treialu yn y dyfodol, a sut y gallem hwyluso cymysgedd mwy amrywiol o awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau peilot yn y dyfodol. Mae hefyd yn ceisio barn ar bŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru a fyddai'n eu galluogi i orfodi awdurdod lleol i dreialu datblygiadau etholiadol arloesol.

Bydd opsiynau'n cael eu datblygu ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad, ond ar hyn o bryd, yr opsiynau cyffredinol yw:

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Gallai Gweinidogion Cymru barhau i gymeradwyo cynigion gan awdurdodau lleol i dreialu datblygiadau etholiadol arloesol, ond ni fyddent yn gallu eu cyfarwyddo

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i orfodi awdurdod lleol i dreialu datblygiadau etholiadol arloesol

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Costau

Dim costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Byddai unrhyw gost o gyflwyno cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau'r dyfodol yn dibynnu ar natur a graddfa'r cynlluniau peilot, a nifer yr awdurdodau lleol a fydd yn cyflwyno cynigion peilot a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru. Fel cymhariaeth, cost y pedwar cynllun peilot a ddarparwyd ym mis Mai 2022 oedd tua £1.5m.

Manteision

Gallai treialu gwahanol fathau o arloesi ddarparu tystiolaeth werthfawr i lywio diwygiadau etholiadol yn y dyfodol, ond byddai'r budd hwn yn cael ei gyfyngu gan nifer yr awdurdodau lleol a fyddai'n cyflwyno cynigion.

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i orfodi awdurdod lleol i dreialu datblygiadau etholiadol arloesol

Costau

Mae'n debyg y byddai'r costau'n uwch nag Opsiwn 1, ond byddai'n dibynnu ar faint, natur a graddfa'r cynlluniau peilot y byddai Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo awdurdodau lleol i'w cyflawni.

Manteision

Prif fantais yr opsiwn hwn fyddai'r gallu i Lywodraeth Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i gynnal cynlluniau peilot, gan helpu i sicrhau y gellid treialu mathau addas o arloesi mewn cymysgedd amrywiol o ardaloedd awdurdodau lleol. Gallai hyn ddarparu tystiolaeth werthfawr i lywio diwygiadau etholiadol yn y dyfodol.

Costau cynlluniau peilot a gyflwynwyd ym mis Mai 2022

Mae'r tabl isod yn nodi costau'r cynllun peilot, wedi'u rhannu'n brif categorïau gwariant, fel y'u darparwyd i Lywodraeth Cymru gan yr awdurdodau peilot. Mae'r data'n cynrychioli'r costau y maent wedi'u hwynebu'n uniongyrchol (megis mewn perthynas â rhywfaint o'r ddarpariaeth TG) neu wedi'u darparu i awdurdodau lleol i ariannu agweddau ar y cynllun peilot. Mae hyn yn rhoi syniad o gostau posibl darparu cynlluniau peilot tebyg o ran graddfa a lefel eu cymhlethdod yn y dyfodol.

Math o wariant	Cost
Staffio	£54,046
Cyfarpar	£25,297
Llogi adeiladau, cludo a storio	£13,600
Cyfathrebiadau	£56,970
EMS	£268,000
Cofrestrau Electronig*	£1,093,890
Cyfanswm	£1,511,803

* Mae hyn yn cynnwys y costau a ysgwyddir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol ar gyfer parhau i ddefnyddio trwyddedau meddalwedd yn ogystal â'r gost ychwanegol a ysgwyddir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau peilot penodol.

11. Costau a manteision – Pennod 5 y Papur Gwyn – Adeiladu iechyd democrataidd

11.1 Gwybodaeth Hygyrch am Bleidleiswyr

Rydym am ystyried sut beth yw gwybodaeth dda am bleidleiswyr a beth yw'r ffordd orau o'i darparu. Rydym am ystyried pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i:

- sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan yn hyderus mewn etholiadau,
- beth yw'r ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth hon a chan bwyr.

Gwyddom o ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid fod diffyg gwybodaeth yn rhwystr rhag cymryd rhan mewn etholiadau a'r broses ddemocrataidd yn fwy cyffredinol. Rydym yn gofyn am adborth drwy'r papur gwyn ar ba wybodaeth yr hoffai pobl fod wedi'i darparu a phwy, yn eu barn hwy, ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth hon. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn dylanwadu'n drwm ar unrhyw bolisi a ddarparwn, a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu opsiynau a fydd yn debygol o gynnwys llwyfan ar-lein yn ogystal â gwybodaeth ar ffurf copi caled i sicrhau hygyrchedd.

Gallai nifer o gostau godi wrth ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i lywio'r math o wybodaeth a'r dull darparu sydd angen ei archwilio. Fodd bynnag, gallwn ragweld y bydd darparu gwybodaeth drwy offeryn ar-lein yn debygol o gael ei ystyried.

Model ar-lein

Gellid edrych ar lwyfan ar-lein tebyg i choosemypcc.org.uk/cy/ ochr yn ochr â darpariaeth ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar ffurf copi caled i'r rheini sydd ei hangen neu ei heisiau. Mae'r costau ar gyfer model o'r fath yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad i'n helpu i ganfod y costau hyn gan y rheini yn y sector sydd â phrofiad perthnasol.

Gwybodaeth copi caled

Ar gyfer rhai etholiadau, gwneir darpariaeth i ddosbarthu copïau caled o ddeunydd etholiadol at bleidleiswyr.

- Ar gyfer etholiadau'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn talu i bob ymgeisydd anfon un darn o ddeunydd etholiadol at bob etholwr cofrestredig yn ei etholaeth. Ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021, cost yr ymarfer hwn oedd tua £6.6 miliwn, yn amodol ar archwiliad.
- Ar gyfer etholiadau'r prif gynghorau yng Nghymru, y pleidiau gwleidyddol sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am gost dosbarthu deunydd etholiadol i etholwyr.
- Ar gyfer etholiadau maer yr Awdurdodau Cyfun yn Lloegr, mae darpariaeth i bostio llyfryn etholiad i bob etholwr (Atodlen 5 Gorchymyn Awdurdodau Cyfun (Etholiadau Maer) 2017). Dim ond ar ôl iddynt dalu

'swm rhesymol' tuag at gostau ei argraffu, fel y penderfynir gan y swyddog canlyniadau, y bydd ymgeiswyr yn cael eu datganiad yn y llyfryn hwn.

Cyn etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2021, lluniodd a dosbarthodd y Comisiwn Etholiadol lyfryn gwybodaeth i bleidleiswyr a ddsbarthwyd i etholwyr ledled Cymru. Cost hyn oedd £TBC

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Costau:

Mae cyfrifon y Senedd ar gyfer 2021 yn dangos mai cost darparu gwybodaeth i bleidleiswyr o fewn y darpariaethau presennol oedd tua £6.6 miliwn, yn amodol ar archwiliad. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y gost hon.

Opsiwn 2 – Deddfu i ddarparu cyfuniad o wybodaeth am bleidleiswyr ar-lein a llyfryn gwybodaeth am bleidleiswyr.

Costau:

Ymchwilir i amcangyfrif o gost y model hwn drwy'r broses ymgynghori, a bydd y cyhoedd yn cyfrannu at y model terfynol o wybodaeth am bleidleiswyr ac mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid arbenigol.

Manteision: Gellid gwireddu nifer o fanteision pe baem yn deddfu i ddarparu gwybodaeth well am bleidleiswyr. Er enghraifft, drwy ddarparu llyfryn gwybodaeth i bleidleiswyr tebyg i'r model a ddefnyddir mewn etholiadau maer, bydd cyfle i hysbysu etholwyr am yr ymgeiswyr sy'n sefyll, a hefyd gwybodaeth am fwrw eu pleidlais, y system etholiadol sy'n cael ei defnyddio ac ati. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael â'r bwch gwybodaeth.

11.2 Gwella hygyrchedd y broses etholiadol ar gyfer pobl heb gynrychiolaeth ddigonol

Rydym am ystyried pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i'w:

- gwneud yn haws i bobl anabl gael gafael ar wybodaeth am y broses etholiadol; a,
- sut y gallem gael gwared ar unrhyw rwystrau ffisegol y maent yn eu hwynebu wrth geisio bwrw eu pleidlais yn annibynnol ac yn gyfrinachol.

Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym y byddent yn hoffi cael mynediad hawdd at ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth etholiadol y gellir ymddiried ynddi, sy'n ystyried yr angen i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau eraill fel rhai hawdd eu darllen. Dywedwyd wrthym hefyd nad yw rhai pobl anabl – yn enwedig pobl ag anabledau dysgu a'u gofalwyr – yn ymwybodol eu bod yn gymwys i bleidleisio. Efallai fod gwybodaeth ar gael, ond nid yw bob amser yn hawdd cael gafael arni.

Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl a gofalwyr i edrych ar opsiynau i wella mynediad at wybodaeth, annog pleidleiswyr i gofrestru a'u cyfeirio at y cymorth sydd ar gael, a fydd yn eu helpu i ddefnyddio eu pleidlais. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ystyried anghenion gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg, a sut mae modd darparu gwybodaeth mewn ffordd gyfleus, hygyrch a dibynadwy – gan gynnwys ar gyfer pleidleiswyr nad ydynt yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn ddigidol, neu rai nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Nid ydym yn rhagweld y bydd angen deddfwriaeth i wneud hyn.

Rydym am sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol lle mae pleidleisio'n digwydd yn hygyrch i bawb sy'n pleidleisio, ac rydym yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol, gweinyddwyr etholiadol a rhanddeiliaid eraill i ystyried a oes modd gwneud newidiadau i arweiniad a hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio er mwyn cefnogi pobl anabl yn well.

Bydd angen i ni hefyd ystyried yr offer sydd ar gael i bleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio yn ystod etholiadau datganoledig yn sgil Deddf Etholiadau 2022. Roedd y Ddeddf hon yn diwygio Atodlen 1 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, a oedd yn arfer ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau mewn etholiadau a gadwyd yn ôl roi dyfais i bob gorsaf bleidleisio ar gyfer pleidleiswyr sydd wedi colli eu golwg. Disodlwyd y gofyniad hwn â gofyniad ehangach newydd i ddarparu unrhyw offer sy'n rhesymol at ddibenion galluogi neu ei gwneud yn haws i bobl anabl bleidleisio'n annibynnol.

Byddwn hefyd yn ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth etholiadol i sicrhau bod modd gweinyddu etholiadau datganoledig mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb, gan ddiogelu uniondeb yr etholiadau ar yr un pryd. Mae ein sgysiau parhaus â rhanddeiliaid a llywodraethau eraill yn y DU wedi nodi datblygiadau arloesol y gellid eu defnyddio i helpu pobl anabl i bleidleisio, a hefyd diogelu eu hawl i fwrw eu pleidlais yn gyfrinachol. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu ymhellach â

rhanddeiliaid, ac ystyried y ffordd orau o weithredu diwygiad, tebyg i'r un yn Neddf Etholiadau 2022, i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl.

Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i sefydlu a ydym yn cyflwyno deddfwriaeth sy'n adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf Etholiadau 2022 o ran yr offer sydd ar gael i bleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio yn ystod etholiadau datganoledig neu a ydym yn defnyddio dull gwahanol.

Costau

Mae'r Papur Gwyn yn gofyn am farn ar y math o gefnogaeth y dylid ei sefydlu i helpu pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol mewn etholiadau datganoledig. Mae hefyd yn ceisio barn ynghylch a ddylai fod yn orfodol i ddarparu darnau penodol o gyfarpar. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl rhoi amcangyfrif o'r costau dan sylw.

Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, bydd amcangyfrifon manwl o'r costau yn cael eu darparu.

Manteision

Gyda'r gefnogaeth briodol yn ei lle, y brif fantais yw y bydd rhwystrau'n cael eu dileu a allai ar hyn o bryd atal pobl anabl rhag pleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol. Mae hyn yn cyd-fynd yn llwyr â defnydd Llywodraeth Cymru o'r model cymdeithasol o anabledd, sy'n dweud wrthym y gall unigolion fod â nam neu wahaniaeth, ond mai cymdeithas sy'n eu gwneud yn anabl drwy roi rhwystrau yn eu ffordd. I ddefnyddio'r Model Cymdeithasol, mae'n rhaid dileu'r rhwystrau er mwyn i bobl anabl allu cyfranogi'n llawn.

11.3 Cryfhau'r Drosedd Etholiadol Dylanwad Gormodol

Dylanwad gormodol yw pan fydd unigolyn yn ceisio rhoi pwysau i orfodi etholwr i beidio â phleidleisio, neu bleidleisio mewn ffordd na fyddent wedi gwneud pe na bai pwysau wedi'i roi.

Diffinnir y drosedd etholiadol o ddylanwad gormodol mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn adran 115 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA 83) ac, mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, yn Erthygl 81 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Mae'n un o'r troseddau etholiadol clasurol, ochr yn ochr â llwgrwobrwyo a tretio.

Yn ei adolygiad o gyfraith etholiadol yn 2016, argymhellodd y Comisiwn Etholiadol y dylid ailddrafftio a moderneiddio'r drosedd. Dywedodd Syr Eric Pickles, yn ei adroddiad *Securing the Ballot*, y dylid cryfhau'r drosedd o ddylanwad gormodol mewn perthynas ag etholwyr. Yn 2018, lansiodd Llywodraeth y DU yr ymgynghoriad '*Protecting the Debate: Intimidation, influence and information*' yn gofyn a ddylid ail-ddrafftio'r drosedd, a beth y dylai ei gynnwys.

Yn dilyn hynny, cafodd gwaith ei wneud gan Lywodraeth y DU i gryfhau a moderneiddio iaith y drosedd, gyda darpariaethau diwygiedig yn cael eu hychwanegu at Ddeddf Etholiadau 2022. Yn dilyn ceisiadau gan Weinidogion Cymru, lluniwyd darpariaethau ar ddylanwad gormodol ar gyfer etholiadau datganoledig mewn perthynas â'r ddarpariaeth benodol hon yn y Ddeddf sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru a'r Senedd ystyried yr ateb priodol ar gyfer etholiadau datganoledig.

Mae diffiniad Deddf Etholiadau 2022 o'r drosedd mewn perthynas ag etholiadau a gadwyd yn ôl yn cael ei gryfhau'n arbennig o ran niwed i enw da a bwriad unigolyn. Nid oedd y diffiniad blaenorol, lle'r oedd mwy o ffocws ar niwed corfforol, yn hepgor niwed i enw da yn benodol ond, yn y diffiniad newydd, mae darpariaeth gyfartal yn cael ei rhoi i'r mathau o niwed llai gweladwy y gall pobl ei brofi, sy'n gallu bod yr un mor niweidiol.

Mae'r diffiniad newydd yn cael ei wella ymhellach drwy egluro pwysigrwydd 'bwriad' wrth gyflawni'r drosedd. Mae'r ymadrodd "at ddibenion" yn yr adran newydd sy'n amlinellu elfennau'r drosedd yn dangos bod bwriad y person sy'n cyflawni'r gweithgaredd yn allweddol. I fod yn euog o ddylanwad gormodol, mae'n ddigon sefydlu bwriad i ddylanwadu'n ormodol ar berson, hyd yn oed os nad oedd y gweithgaredd yn llwyddiannus yn y cyswllt hwn.

Mae swyddogion wedi ystyried yr iaith gryfach sy'n disgrifio'r drosedd o ddylanwad gormodol (sydd bellach wedi'i chynnwys yn adran 114A RPA 83 ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl) ac maent yn cynnig dyblygu'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Etholiadau 2022 fel eu bod yn berthnasol i etholiadau datganoledig.

Costau a manteision

Opsiwn 1 -

Parhau â'r drefn bresennol

Costau/Manteision: Ni ddisgwylir unrhyw gostau na manteision â gwerth ariannol.

Opsiwn 2 -

Cyflwyno deddfwriaeth i gryfhau a moderneiddio'r diffiniad o drosedd etholiadol Dylanwad Gormodol a ddarperir gan adran 114A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ar gyfer etholiadau datganoledig.

Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod iaith ddeddfwriaethol y drosedd yn cyd-fynd â'r newidiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU yn Neddf Etholiadau 2022.

Costau:

Cost monitro a gorfodi cynyddol

Bydd egluro'r gyfraith ar ddylanwad gormodol yn ei gwneud yn gliriach pan fydd yr arfer llwgr wedi digwydd. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws monitro a gorfodi drwy gamau ataliol ar lawr gwlad, megis sesiynau briffio ar gyfer ymgeiswyr a drefnir gan Swyddogion Canlyniadau ac a fynychir gan gynrychiolwyr yr heddlu lleol; efallai y bydd cynnydd yn y costau ar gyfer yr heddlu, y system llysoedd a'r erlynwyr o ganlyniad i hyn, ond ychydig iawn o etholiadau a/neu ardaloedd awdurdodau lleol fyddai angen camau gorfodi o'r fath (gweler tudalen 8 i weld tabl o achosion a amcangyfrifwyd y flwyddyn).

Gall deddfwriaeth gliriach hefyd arwain at ragor o ddeisebau etholiad sy'n herio canlyniadau'r etholiad yn ogystal ag erlyniadau llwyddiannus o achosion o ddylanwad gormodol gan y bydd yn dod yn haws i'w deall pan fydd yr arfer llwgr wedi digwydd.

Nid oes gwerth ariannol wedi'i roi ar y costau hyn gan nad oes data ar faint mae cyrff perthnasol yn ei wario ar fonitro a gorfodi, sy'n ymwneud â dylanwad gormodol. Yn yr un modd, nid oes data i ddangos faint o erlyniadau ychwanegol fydd yna gan nad ydym yn gwybod faint o honiadau / deisebau etholiad fyddai wedi arwain at weithredu pellach, pe bai'r gyfraith wedi bod yn gliriach ar y pryd.

Manteision:

Llai o ddylanwad gormodol ar etholwyr

Mae'n debygol y bydd cryfhau deddfwriaeth sy'n ymwneud â dylanwad gormodol yn lleihau nifer yr achosion o fygwth etholwyr. Bydd y ddeddfwriaeth gryfach yn egluro beth sy'n cael ei ystyried yn ddylanwad gormodol, ac yn ceisio ei gwneud yn haws i gymryd camau yn erbyn achosion o'r arfer llwgr hwn neu eu herlyn, a bydd yn debygol o atal pobl rhag ceisio cael dylanwad gormodol ar etholwyr.

Cyfranogiad gwleidyddol gwell

Gallai llai o ddylanwad gormodol a bygwth gan etholwyr gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio, gan fod pobl yn debygol o deimlo'n fwy cyfforddus i bleidleisio'n rhydd a chymryd rhan mewn etholiadau.

11.4 Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

Cefndir

Drwy greu Cymru fwy cyfartal, lle mae gan bawb gyfle i gymryd rhan, cyrraedd eu llawn botensial ac yn gallu cyfrannu'n llawn at yr economi, bydd yn galluogi Cymru i fod yn fwy ffyniannus ac arloesol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynyddu amrywiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cymryd rhan mewn democratiaeth leol drwy sefyll am swyddi etholedig.

Mae pobl anabl yn debygol o wynebu costau uwch wrth geisio swyddi etholiadol oherwydd eu namau. Sefydlwyd y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig beilot i ddarparu cymorth ychwanegol i bobl anabl i geisio swyddi etholedig. Cefnogodd y gronfa beilot unigolion a oedd yn sefyll etholiad yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 ac yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Oherwydd y newidiadau a wnaed i'r rheolau ynghylch terfynau gwario ar gyfer ymgeiswyr, nid oedd y cyllid a ddarparwyd drwy'r cynllun peilot yn cyfrif tuag at derfynau gwario'r ymgeiswyr. Fel rhan o'r dull gweithredu, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau Mynediad i Wleidyddiaeth i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael a'r amserlenni ar gyfer ceisiadau.

Talodd y gronfa beilot a ddarparwyd gan Anabledd Cymru ac a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru am gymorth ymarferol i alluogi pobl anabl i gymryd rhan lawn yn y broses wleidyddol. Denodd y cynllun peilot 21 o ymgeiswyr, a chafodd chwech eu hethol i gynghorau cymuned. Bwriedir gwerthuso'r gronfa i lywio trefniadau yn y dyfodol.

Yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ymestyn y Gronfa i gefnogi ymgeiswyr o grwpiau eraill nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n deg, y bwriad yw deddfu i fynnu bod Gweinidogion Cymru yn cynnal 'Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig' sydd ar gael i bob etholiad cyffredin ac isetholiad yng Nghymru, a bydd trefniadau manwl yn cael eu nodi mewn rheoliadau. Bydd y trefniadau manwl yn cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid a phartïon sydd â diddordeb.

Yr opsiynau

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Opsiwn 2 – Deddfu i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Nid oes gofyniad cyfreithiol i sefydlu a chynnal cronfa i gefnogi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Mater i weinidogion unigol fyddai penderfynu a oes

cronfa yn y dyfodol ai peidio, gan greu ansicrwydd o fewn cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ynghylch a fydd cymorth ar gael pan fo angen.

Costau

Opsiwn 1 – Y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gweithredu a rheoli'r gronfa beilot, a oedd yn cynnwys y Senedd, y prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref:

- 2020-2021 - Paratoi ar gyfer y gronfa - £50,000
2020 – 2021 – Rheoli a dyrannu - £30,000
- 2021-2022 - Rheoli a dyrannu - £86,000
- 2022-2023 - Dirwyn y gronfa i ben a'i hadolygu - £20,000

Nid oedd yn bosibl pennu faint o gyllid fyddai ei angen ar gyfer gwobrau derbynydd trydydd parti gan y byddai hyn yn dibynnu ar nifer yr ymgeiswyr a lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar bob unigolyn. Rhoddwyd £120,000 cychwynnol o'r neilltu at y diben hwn, a oedd, yn achos y cynllun peilot llywodraeth leol, yn fwy na'r hyn a oedd yn ofynnol.

O ran sefydlu cronfa anneddfwriaethol ar gyfer y dyfodol, a allai gefnogi'r unigolion sy'n cael eu gwarchod gan bob grŵp sy'n cael eu tangynrychioli, byddai disgwyl i'r costau fod o leiaf ar lefel y rhai a nodir uchod. Ond, byddai'n dibynnu ar y trefniadau manwl i gefnogi pob grŵp sy'n cael ei dangynrychioli. Nid yw'n bosibl diffinio costau ar hyn o bryd, gan y byddent yn cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid a phartïon sydd â diddordeb.

Manteision

Byddai Opsiwn 1 yn caniatáu parhau â'r gwaith o ran sefydlu dulliau gweithredu i gefnogi unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn cael ei roi ar sail ddeddfwriaethol. Ni fyddai gan unigolion sicrwydd y byddai cymorth ar gael ar gyfer etholiadau yn y dyfodol. Gallai'r ansicrwydd hwn effeithio ar nifer yr ymgeiswyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli sy'n cynnig eu hunain.

Opsiwn 2 - Deddfu i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

Disgrifiad

Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu a chynnal Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig, gyda manylion yn cael eu nodi mewn rheoliadau. Byddai hyn yn golygu bod modd gwneud gwahanol setiau o reoliadau i gefnogi trefniadau ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar sail anghenion penodol y grwpiau hynny. Byddai'r trefniadau'n cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid a phartïon sydd â diddordeb, a byddai'n rhoi sicrwydd i unigolion y byddai cymorth ar gael i'w helpu i sefyll mewn etholiad. Byddai hyn yn symud y ddadl i ganolbwyntio ar ymyriadau manwl.

Costau

Nid oes costau'n cael eu cyflwyno drwy bŵer i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal cronfa. Byddai unrhyw gostau'n deillio o'r trefniadau a roddwyd ar waith drwy reoliadau i gefnogi grwpiau penodol sy'n cael eu tangynrychioli. Byddai dogfennau ategol i reoliadau yn nodi'r costau cysylltiedig. Fodd bynnag, er enghraifft, mae'r costau a'r sylwadau a nodir yn Opsiwn 1 yn debygol o fod yn debyg i sefydlu trefniadau i gynorthwyo pobl anabl i sefyll mewn etholiad, fel un elfen o unrhyw drefniadau newydd.

Manteision

Bydd yr opsiwn hwn yn rhoi sylfaen gyfreithiol gadarn i adeiladu cyfres o drefniadau i gefnogi pobl sy'n cael eu tangynrychioli i sefyll mewn etholiad. Yn yr un modd â chostau, bydd manteision unrhyw drefniadau yn y dyfodol yn cael eu nodi pan fydd rheoliadau'n cael eu gwneud.

Opsiwn a Ffefrir

Er y bydd Opsiwn 1 yn galluogi gwaith i barhau i nodi trefniadau cymorth, ni fydd yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar unigolion y bydd cymorth ar gael pan fydd ei angen.

Mae Opsiwn 2 yn darparu'r cysur a'r sicrwydd y bydd trefniadau ar waith i gefnogi unigolion, y bydd yn cael ei gyfamodi, ac y bydd partneriaid a phartïon sydd â diddordeb yn rhan o'r gwaith o ddatblygu trefniadau ar gyfer y dyfodol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

11.5 Arolwg ymgeiswyr llywodraeth leol

Cefndir

Ar hyn o bryd, nid yw aelodau awdurdodau lleol Cymru yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o fentrau i annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ystyried sefyll mewn etholiad. Bwriad yr arolwg yw helpu i greu darlun o nodweddion y rheini sy'n sefyll etholiad mewn awdurdodau lleol, ac yn cael eu hethol iddynt, a helpu i ddatblygu polisi yn y maes hwn.

Roedd Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredin i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned. Mae adran 1(1) a (2) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau, gynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus mewn etholiadau cyffredin i sir neu fwrdeistref sirol ac i gyngor tref a chymuned.

Mae adran 1 (3)(a) a (b) yn darparu bod y rheoliadau'n rhagnodi'r cwestiynau a ofynnir, y modd maent yn cael eu gofyn, a sut y cesglir yr wybodaeth.

Mae Adran 1(4) yn nodi meysydd y cwestiynau y gellir eu gofyn yn yr arolwg. Y meysydd yw - rhyw, tueddfryd rhywiol, iaith, hil, oedran, anabledd, crefydd neu gred, iechyd, addysg neu gymhwyster, cyflogaeth a gwaith fel cynghorydd.

Rhagnodir y cwestiynau a ffurf yr arolwg yn Rheoliadau Arolwg Etholiadau Lleol (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012"). Cafodd y rhain eu diwygio gan Reoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2016 ac yn fwy diweddar, Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2022.

Mae hwn yn arolwg pwysig, ond yn aml mae'n cystadlu am sylw gydag arolygon eraill gan awdurdodau lleol a'r Comisiwn Etholiadol, a all, gyda'i gilydd, achosi i unigolion flino ar orfod llenwi arolygon. Un ffordd o leihau nifer yr arolygon yw rhannu'r arolwg yn ddwy ran, gan bennu set graidd o gwestiynau a galluogi awdurdodau lleol i ychwanegu nifer cyfyngedig o gwestiynau mewn perthynas â materion lleol.

Mae Gweinidogion Cymru eisiau cadw dull gweithredu Cymru gyfan ar gyfer yr arolwg ond maent yn bwriadu dileu'r gofyniad i ragnodi'r arolwg yn y rheoliadau. Byddai hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ddatblygu'r arolwg ar lefel genedlaethol, gyda chwestiynau craidd i bob awdurdod lleol a'r hyblygrwydd i ofyn cwestiynau lleol.

Yr opsiynau

Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Opsiwn 2 – Dileu'r angen i ragnodi ffurf a chwestiynau'r arolwg o fewn rheoliadau.

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Disgrifiad

Ni fyddai Opsiwn 1 yn golygu unrhyw newidiadau. Byddai'r ffurf a'r cwestiynau ar gyfer yr adolygiad yn parhau i gael eu rhagnodi drwy reoliadau, a byddai angen rheoliadau newydd ar gyfer unrhyw newid i gwestiynau a'r ffurf ar gyfer pob etholiad cyffredin.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol

Manteision

Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw fanteision ychwanegol

Opsiwn 2 – Dileu'r angen i ragnodi ffurf a chwestiynau'r arolwg o fewn rheoliadau.

Disgrifiad

Byddai Opsiwn 2 yn dileu'r gofyniad am ffurf yr arolwg a'r cwestiynau sydd i'w rhagnodi mewn rheoliadau ac o ganlyniad yr angen i wneud rheoliadau newydd cyn pob etholiad cyffredin, sef y profiad a gafwyd hyd yma.

Byddai proses yn cynnwys cydweithredu rhwng prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, y Comisiwn etholiadol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a grwpiau cydraddoldeb yn cael ei sefydlu cyn pob etholiad cyffredin i ystyried ffurf yr arolwg a'r cwestiynau i'w gofyn. Byddai Gweinidogion yn gallu diwygio / ychwanegu / dileu cwestiynau cyn cymeradwyo'r arolwg yn derfynol.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

Ni fyddai costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru gan mai'r arfer oedd sefydlu grŵp o bartneriaid i drafod newidiadau i'r arolwg ac i'r Gweinidog ystyried y cwestiynau arfaethedig cyn gwneud rheoliadau newydd. Bydd arbedion cost cyfle o ganlyniad i'r ffaith nad oes angen gwneud rheoliadau.

Costau i lywodraeth leol

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno costau ychwanegol gan y bydd y ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol i gynnal arolwg yn parhau. Er bod pob awdurdod lleol yn rhydd i gynnal ei arolwg ei hun, ar gyfer y ddau arolwg diwethaf, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i ariannu Data Cymru yn uniongyrchol i gynnal yr arolwg ar ran pob awdurdod lleol. Disgwylir y bydd opsiwn tebyg ar gael yn y dyfodol.

Manteision

Bydd Opsiwn 2 yn rhoi hyblygrwydd i ofyn cwestiynau cenedlaethol a lleol mewn un arolwg, ac mae'n bosibl y bydd yn lleihau nifer yr arolygon a roddir i ymgeiswyr i'w cwblhau. Gobeithir y bydd hyn yn cynyddu'r gyfradd ymateb ac, o ganlyniad, yn darparu mwy o wybodaeth am ymgeiswyr er mwyn asesu a yw mentrau cenedlaethol a lleol i annog pobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i ystyried sefyll mewn etholiad yn cael effaith. Bydd yr wybodaeth a gesglir hefyd yn helpu i lywio polisi yn y maes hwn yn y dyfodol.

Yr Opsiwn a Ffefrir

Mae Opsiwn 1 yn cadw'r sefyllfa bresennol, a bydd yn parhau i fynnu bod rheoliadau newydd yn cael eu gwneud cyn pob etholiad cyffredin heb ganiatáu hyblygrwydd i ofyn cwestiynau lleol.

Opsiwn 2 – byddai'n dileu'r gofyniad i wneud rheoliadau newydd cyn pob etholiad cyffredin, yn caniatáu hyblygrwydd i gael cwestiynau craidd cenedlaethol a chwestiynau lleol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir

12. Costau a manteision – Pennod 6 y Papur Gwyn – Moderneiddio etholiadau Cymru

12.1 Pleidleisio Hyblyg

Cefndir

Ym mis Mai 2022, fel rhan o bedwar cynllun peilot a gynhaliwyd mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol, cafodd pleidleiswyr ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Thorfaen gyfle i bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio, ac roedd ganddynt hyblygrwydd ychwanegol o ran ble roeddynt yn pleidleisio. Cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol ei adroddiad ar y cynlluniau hyn ar 2 Awst 2022.

Canfu'r Comisiwn Etholiadol fod y cynlluniau peilot wedi cael eu rhedeg yn dda ac nad oedd unrhyw broblemau amlwg ar y diwrnodau pleidleisio ymlaen llaw na'r diwrnod pleidleisio. Roedd pleidleiswyr yn fodlon ar eu profiad o bleidleisio'n gynnar ac yn croesawu'r hyblygrwydd a'r dewis ychwanegol y rhoddodd hyn iddynt. Fodd bynnag, ni wnaeth y cyfle i bleidleisio'n gynnar gynyddu nifer y bobl a bleidleisiodd yn yr ardaloedd a oedd yn treialu'r cynlluniau peilot. Daeth y Comisiwn Etholiadol i'r casgliad nad oedd hyn yn annisgwyl gan fod nifer o ffactorau'n dylanwadu ar benderfyniad pobl i bleidleisio. Nid oedd y Comisiwn Etholiadol yn gallu dod i gasgliad o dystiolaeth y cynlluniau peilot beth fyddai effaith pleidleisio ymlaen llaw, petai'n cael ei gyflwyno'n ehangach, ar nifer y pleidleiswyr dros amser. Roedd yn glir hefyd y byddai angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu unrhyw bolisi a strwythur cefnogi gweinyddol yn y dyfodol cyn y gellid penderfynu a ddylid cyflwyno pleidleisio ymlaen llaw yn ehangach. Rydym yn ymgynghori ar hyn, a byddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch ei gyflwyno'n ehangach pan fyddwn yn gwybod beth yw barn rhanddeiliaid.

Yr opsiynau

Byddwn yn datblygu'r opsiynau ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad, ond dyma'r opsiynau yn fras:

- Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol o ran lleoliadau ac amseroedd pleidleisio
- Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i alluogi pleidleisio ymlaen llaw a/neu bleidleisio mewn amryw o leoliadau

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol o ran lleoliadau ac amseroedd pleidleisio

Costau

Dim costau ychwanegol

Manteision

Un fantais fyddai symlrwydd i weinyddwyr etholiadol o ran parhau i roi'r trefniadau presennol ar waith.

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i alluogi pleidleisio ymlaen llaw a/neu bleidleisio mewn amryw o leoliadau

Costau

Byddwn yn asesu'r costau wrth i'r opsiynau gael eu datblygu ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad. Fel cymhariaeth, cost y pedwar cynllun peilot a ddarparwyd ym mis Mai 2022 oedd tua £1.5m. Fodd bynnag, mae'n anodd dod i gasgliadau clir o'r ffigurau hyn ynghylch cost ei gyflwyno'n ehangach yn y pen draw. Mae sawl rheswm am hyn – mae awdurdodau lleol wedi defnyddio gwahanol ddulliau o gofnodi costau (e.e. a yw costau staff tîm craidd wedi'u cynnwys, pa ddarnau o offer y codir tâl amdanynt). Bydd cynlluniau peilot yn denu costau datblygu na fydd yn berthnasol yn yr un ffordd neu o gwbl pe baent yn cael eu cyflwyno. Nid yw'r ardaloedd awdurdod lleol dan sylw yn gynrychioliadol o bob ardal. Efallai y bydd rhai costau yn y dyfodol ar goll o'r cynllun peilot (e.e. ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyhoeddus cenedlaethol). Efallai y bydd arbedion maint yn cael eu gwireddu pe bai'r polisi'n cael ei gyflwyno mewn rhagor o ardaloedd.

Ni ellir cymryd costau'r cynlluniau peilot fel arwydd clir o gostau tebygol cyflwyno unrhyw drefn bleidleisio ymlaen llaw yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn enwedig o ystyried y nifer isel a bleidleisiodd yn gynnar, mae'n bwysig bod unrhyw benderfyniadau ynghylch cyflwyno hyn yn ehangach yn seiliedig ar asesiad o gostau a manteision gweithredu ehangach, gan gynnwys defnyddio cofrestrau electronig i gefnogi pleidleisio ymlaen llaw, sef y maes lle'r oedd y costau ychwanegol mwyaf yn y cynlluniau peilot.

Manteision

Byddwn yn asesu'r manteision wrth i ni ddatblygu'r opsiynau ymhellach. Fel y nodir uchod, daeth y Comisiwn Etholiadol i'r casgliad bod angen gwneud rhagor o waith i benderfynu beth fyddai effeithiau cyflwyno pleidleisio hyblyg yn ehangach. Mae gwerthuso cynnar yn dangos, er bod pobl yn croesawu'r hyblygrwydd ychwanegol, nad oedd unrhyw welliant yn y nifer a bleidleisiodd.

12.2 Olrhain Pleidleisiau Drwy'r Post

Mae'r Papur Gwyn yn ceisio barn rhanddeiliaid ynghylch sefydlu system electronig i olrhain pleidleisiau drwy'r post. Prif amcanion system olrhain yw cynyddu hyder y cyhoedd yn y broses bleidleisio drwy'r post, a darparu mecanwaith i Weinyddwyr Etholiadol allu mynd i'r afael â gwallau mewn Datganiadau Pleidlais Drwy'r Post er mwyn lleihau nifer y pleidleisiau a wrthodir.

Ystyriwyd dau opsiwn wrth ddatblygu'r polisi hwn:

- Opsiwn 1: Parhau â'r drefn bresennol; a
- Opsiwn 2: Cyflwyno system e-dracio pleidleisiau drwy'r post a fyddai'n caniatáu prosesu Datganiadau Pleidleisiau Drwy'r Post sy'n dod i mewn ac yn darparu mecanwaith i hysbysu etholwyr am wallau fel y gellir gwneud cywiriadau mewn pryd i sicrhau bod eu pleidleisiau drwy'r post yn cael eu cyfrif.

Opsiwn 1: Parhau â'r drefn bresennol

Byddai'r opsiwn hwn yn parhau â'r trefniadau olrhain pleidleisiau post presennol nad ydynt yn darparu ffordd i Weinyddwyr Etholiadol ganfod a chywiro gwallau ar bleidleisiau post cyn yr etholiad.

Manteision

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn dod ag unrhyw fanteision ychwanegol.

Costau

Costau i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau lleol na Llywodraeth Cymru gan y byddai'n parhau â'r trefniadau presennol.

Opsiwn 2: Cyflwyno system electronig i olrhain pleidleisiau drwy'r post

Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno system e-dracio pleidleisiau drwy'r post a fyddai'n caniatáu prosesu Datganiadau Pleidleisiau Drwy'r Post sy'n dod i mewn ac yn darparu mecanwaith i Weinyddwyr Etholiadol hysbysu etholwyr am wallau fel y gellir gwneud cywiriadau mewn pryd i sicrhau bod eu pleidleisiau drwy'r post yn cael eu cyfrif. Mae'n bosibl hefyd y bydd y system yn cynnwys swyddogaeth sy'n caniatáu i bleidleiswyr wirio hynt eu pleidleisiau drwy'r post drwy ddefnyddio adnodd ar-lein ar wefan yr awdurdod lleol.

Mae'r Papur Gwyn yn ceisio barn rhanddeiliaid ar gyflwyno'r math hwn o system electronig, a bydd yr ymatebion yn helpu i lywio datblygiadau yn y dyfodol. Er nad yw'n hysbys eto beth fyddai'r system yn ei olygu'n ymarferol, gallai ei ffurf gychwynnol gynnwys system syml ar gyfer hysbysiadau

dosbarthu a hysbysu am wallau, lle mae Gweinyddwyr Etholiadol yn anfon llythyr at bleidleiswyr i'w hysbysu am gamgymeriadau ar eu datganiadau pleidleisio a lle mae pleidleiswyr yn cael cyfle i'w cywiro drwy drefniant dychwelyd drwy'r post a dalwyd amdano ymlaen llaw. Mewn gwirionedd, byddai hyn yn cyflwyno cam ychwanegol i'r broses pleidleisio drwy'r post. Yn ystod y cam ychwanegol hwn, byddai Gweinyddwyr Etholiadol yn anfon llythyr at bleidleiswyr yn rhoi gwybod iddynt am wall ar eu papurau pleidleisio drwy'r post ac yn eu gwahodd i gywiro ac ailgyflwyno fersiwn diwygiedig. Byddai pleidleiswyr yn dychwelyd pleidleisiau diwygiedig gan ddefnyddio amlen barod a oedd wedi'i chynnwys yn y llythyr hysbysiad gwall gwreiddiol a anfonwyd gan y Gweinyddwyr Etholiadol.

Nodwn, fodd bynnag, y gallai agweddau ar y system newid ar sail yr adborth a dderbynir gan randdeiliaid.

Manteision

Byddai opsiwn 2 yn lleihau nifer y pleidleisiau drwy'r post a wrthodir drwy ddarparu mecanwaith i bleidleiswyr gywiro gwallau yn eu datganiadau pleidlais drwy'r post mewn pryd i'w pleidleisiau gael eu cyfrif. Dan y trefniadau presennol, dim ond ar ôl i'r etholiad ddod i ben y caiff pleidleiswyr wybod fel arfer na chafodd eu pleidlais ei chyfrif. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn arwain at fanteision o ran cynyddu hyder y cyhoedd yn nibynadwyedd y broses pleidleisio drwy'r post.

Costau

Costau i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

Nid yw'n bosibl mesur y costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2 ar hyn o bryd. Bydd y costau'n dibynnu ar y math o system olrhain, os o gwbl, y caiff ei mabwysiadu. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cyflwyno system olrhain pleidleisiau drwy'r post yn arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau lleol. Rydym yn rhagweld y byddai hyn yn cynnwys costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- sganio datganiadau pleidleisiau drwy'r post;
- postio a dychwelyd papurau pleidleisio drwy'r post lle canfuwyd gwallau;
- cynnal system ar-lein sy'n caniatáu i bleidleiswyr wirio cynnydd eu pleidleisiau drwy'r post; a
- yr adnodd staff sydd ei hangen i weithredu'r system.

13. Costau a manteision – Pennod 7 y Papur Gwyn – Gwella ein democratiaeth

13.1 Newidiadau i'r drefn anghymhwysu Cyngorwyr Lleol rhag gwasanaethu hefyd fel Aelodau o'r Senedd

Rydym yn ystyried a ddylid gwneud newidiadau i'r drefn anghymhwysu bresennol ar gyfer cael eich ethol i'r Senedd, yn benodol -

- a) anghymhwysu cyngorwyr tref a chymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd, gan sicrhau bod y trefniadau'n cyd-fynd â'r drefn o anghymhwysu aelodau prif gynghorau Cymru.**

Mae angen deddfwriaeth i wneud y newid hwn. Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi:

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn newid y sefyllfa bresennol.

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i roi'r newid ar waith

Mae dau lwybr i gyflawni hyn:

- Diwygio'r darpariaethau presennol yn adrannau 16(1)(zc) a 17D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel eu bod yn berthnasol i bob cynghorydd (prif gynghorydd a chynghorydd tref a chymuned) neu gyflwyno darpariaethau newydd i anghymhwysu cyngorwyr tref a chymuned ar yr un sail.
- Diwygio'r Atodlen yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwysu) 2020 sy'n disgrifio rhai swyddi penodol ac yn anghymhwysu deiliaid y swyddi hynny rhag bod yn Aelodau o'r Senedd i gynnwys aelodau o gynghorau tref a chymuned.

Y llwybr cyntaf yw'r opsiwn a ffefrir oherwydd y byddai'n sicrhau cysondeb â'r modd yr ymdrinnir â phrif gynghorwyr, a byddai'r Senedd yn ei gyflawni drwy graffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol.

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Ni nodwyd unrhyw fanteision na chostau ychwanegol

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i roi'r newid ar waith (dewis a ffefrir)

Costau

Byddai Llywodraeth Cymru yn wynebu costau gweinyddol am unrhyw ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei defnyddio i roi'r newid hwn ar waith.

Gallai fod costau eraill i roi'r newidiadau arfaethedig ar waith, er enghraifft

mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth. Nid yw'r costau posibl hyn wedi cael eu cyfrifo.

Manteision

Nid ydym wedi nodi unrhyw fanteision meintiol.

Byddai'r newidiadau arfaethedig i'r drefn anghymhwysu bresennol ar gyfer cynghorwyr lleol yng Nghymru o fudd i ddemocratiaeth leol yng Nghymru drwy wneud y broses ethol yn fwy cyfartal. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb yn y trefniadau ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned a Phrif Gynghorwyr. Byddai hyn yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch yr ymrwymadau o ran amser i ddal swyddi deul a gwrthdaro posibl rhwng buddiannau. Y rheswm am hyn yw bod gan y Senedd rôl allweddol mewn materion sy'n effeithio ar gynghorau cymuned a thref. Mae'n amlwg hefyd y byddai gan gynghorydd cymuned neu dref sydd hefyd yn aelod o'r Senedd lawer mwy o fynediad at benderfyniadau sy'n effeithio ar gynghorau cymuned a thref na chynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Senedd.

b) O bosibl, diddymu'r "cyfnod gras" presennol ar gyfer pob prif gynghorydd a etholir i'r Senedd, ac ar gyfer Aelodau'r Senedd a etholir yn brif gynghorwyr.

Mae angen deddfwriaeth i wneud y newidiadau hyn. Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn newid y sefyllfa bresennol.

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i ddiddymu'r cyfnod gras

Dileu'r cyfnodau gras presennol yn adrannau 17E a 17F o Ddeddf Llywodraeth Cymru

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol

Ni nodwyd unrhyw fanteision na chostau ychwanegol

Opsiwn 2 – Gweithredu deddfwriaeth i ddiddymu'r cyfnod gras

Costau

Byddai'r costau yr un fath ag ar gyfer rhan a).

Hefyd, gallai fod arbedion cost gan na fyddai bellach yn rhaid i Gynghorau dalu cynghorwyr am y "cyfnod gras". Nid yw'r costau a'r manteision hyn wedi cael eu cyfrifo.

Manteision

Byddai'r manteision yr un fath ag ar gyfer rhan a).

Byddai dileu'r cyfnod gras yn sicrhau y gellid gwireddu'r manteision posibl ar unwaith, yn hytrach nag ar ôl y cyfnod gras. Hefyd, byddai dileu'r cyfnod gras yn dileu'r sefyllfa freintiedig a allai fod gan rai prif gynghorwyr, lle maent yn rhoi eu tâl gan y cyngor fel rhodd i elusennau lleol o'u dewis. Gellid ystyried bod hyn yn annheg iawn ac ar y gwaethaf gellid ystyried bod hyn yn gyfystyr â phrynu cefnogaeth.

14. Aseiad Effaith

Rydym wedi paratoi Aseiad Effaith Integredig drafft i gefnogi'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Y bwriad yw cyhoeddi hyn ochr yn ochr â'r ymgynghoriad i nodi ein hasesiad cychwynnol ac i chwilio am wybodaeth ychwanegol ac amgen i gefnogi'r aseiad parhaus o'r effeithiau wrth i ni ddatblygu cynigion, yn dilyn yr ymgynghoriad.

Dyma grynodedb o'r prif effeithiau a nodwyd yn yr Aseiad Effaith Integredig:

Mae effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol y cynigion yn cyd-fynd yn fras â'r themâu allweddol canlynol:

- gwneud democratiaeth a phleidleisio yn fwy hygyrch i bob aelod o'n cymdeithas ac annog cyfranogiad gweithredol ym mywyd democrataidd Cymru
- helpu pobl i fod yn fwy gweithgar, i ymgysylltu â dinasyddion ac, wrth wneud hynny, cyfrannu at well canlyniadau economaidd-gymdeithasol
- moderneiddio gweinyddiaeth etholiadau yng Nghymru
- gwella'r defnydd o dechnoleg i'w gwneud yn haws i bleidleiswyr ac ymgeiswyr gymryd rhan mewn democratiaeth

Yr effeithiau negyddol mwyaf arwyddocaol fydd costau gweinyddol a chostau cydymffurfio, yn enwedig i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd a gyflwynir yn y Papur Gwyn.

Y saith nod llesiant

Mae'r nod cyffredinol o wella democratiaeth a mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd, a llawer o gynigion penodol yn y Papur Gwyn, yn cyd-fynd yn glir â phedwar o'r saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus – Er enghraifft, creu nifer fach o swyddi drwy'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a chyd-fynd â nodau'r cwricwlwm cenedlaethol newydd, yn enwedig helpu dysgwyr i ystyried effaith eu gweithredoedd wrth arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd. Hefyd, datblygu dysgwyr fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus ac egwyddorol.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – Er enghraifft, cynigion i wella hygyrchedd ac amrywiaeth, i bleidleiswyr ac i ymgeiswyr
- Cymru o gymunedau cydlynus – Bydd llawer o'r cynigion yn cefnogi gwell cyfranogiad mewn democratiaeth ac ymgysylltiad pobl â'u cymunedau lleol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – gan gynnwys ystyried gofynion y Gymraeg ar gyfer Swyddogion Canlyniadau mewn etholiadau

Mae'r Aseiad Effaith Integredig yn cynnwys aseiad o effeithiau'r cynigion ar:

- llesiant cymdeithasol
- llesiant diwylliannol a'r Gymraeg

- llesiant economaidd
- llesiant amgylcheddol
- anfantais economaidd-gymdeithasol

Rydym yn disgwyl cynnal yr asesiadau effaith penodol llawn canlynol ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Papur Gwyn:

- Hawliau plant
- Cydraddoldeb
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol
- Prawfesur Polisiâu o safbwynt Anghenion Cefn Gwlad
- Preifatrwydd
- Y Gymraeg
- Economaidd / Aseiad Effaith Rheoleiddiol
- Cyfiawnder
- Bioamrywiaeth

Byddwn yn cwblhau Aseiad o'r Gystadleuaeth llawn ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth a fydd yn deillio o ymgynghoriad y Papur Gwyn.

15. Adolygu ar ôl gweithredu

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid allweddol i gynllunio a datblygu adolygiad ôl-weithredu, wrth i ddeddfwriaeth gael ei datblygu, yn dilyn ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Bydd hyn yn cael ei lywio gan y dull a ddefnyddir i adolygu'r broses o roi deddfwriaethau etholiadol ddiweddar eraill ar waith, fel Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.